Y Comisiwn Etholiadol

Etholiad Cyffredinol Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Adroddiad ar y ffordd y gweinyddwyd etholiadau 5 Mai 2016 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Medi 2016

Cyfieithiadau a fformatau eraill

I gael gwybodaeth am sut i gael y cyhoeddiad hwn mewn iaith arall, neu mewn print bras neu Braille, cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol:
Ffôn: 020 7271 0500
E-bost: publications@electoralcommission.org.uk

Rydym yn gorff annibynnol a sefydlwyd gan Senedd y DU. Rydym yn rheoleiddio cyllid pleidiau ac etholiadau ac yn gosod safonau ar gyfer etholiadau a gynhelir yn dda. Rydym yn gweithio i gefnogi democratiaeth iach, lle y seilir etholiadau a refferenda ar ein hegwyddorion sef ymddiriedaeth, cyfranogiad a dim dylanwad gormodol.

Cynnwys

Rhagair 4

Crynodeb gweithredol 6

1 Cyflwyniad 13

2 A gafodd etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru eu cynnal yn dda? Profiad y pleidleiswyr 19

3 Gweinyddu'r etholiadau 29

4 Ymgeiswyr ac ymgyrchwyr 41

5 Ymwybyddiaeth y cyhoedd 52

6 Edrych i'r dyfodol 59

Atodiad A: Ardaloedd heddlu, awdurdodau lleol & etholaethau Cynulliad 61

Atodiad B: Methodoleg Ymchwilio 62

Rhagair

Yng Nghymru, cynhaliwyd etholiadau ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, yn ogystal ag is-etholiad Seneddol y DU yn etholaeth Ogwr, ddydd Iau 5 Mai 2016.

Hwn yw ein hadroddiad ni ar y ffordd y gweinyddwyd etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r Comisiwn wedi cyhoeddi adroddiad ar wahân sy'n canolbwyntio'n gyfan gwbl ar yr etholiadau ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a gynhaliwyd yng Nghymru a Lloegr.

Gan ddefnyddio ein data, sy'n seiliedig ar brofiad pleidleiswyr, staff etholiadau ac ymgyrchwyr, rydym wedi gallu asesu bod etholiadau'r Cynulliad wedi cael eu cynnal yn dda ar y cyfan, a phrin oedd y problemau.

Fodd bynnag, noda'r adroddiad fod cyfuno etholiadau ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yng Nghymru wedi arwain at heriau sylweddol i Swyddogion Canlyniadau a'u staff, a'r rheiny oedd yn ymgyrchu yn yr etholiadau. Roedd hyn yn cynnwys cyfnodau a reoleiddir ar wahân i ymgyrchwyr a systemau etholiadol gwahanol, a oedd yn ymgorffori dwy ffordd o bleidleisio a thri phapur pleidleisio.

Er mwyn wynebu'r heriau hyn, sefydlodd y Comisiwn Grŵp Cyflawni Cymru a oedd â'r nod o wella a symleiddio'r gwaith cynllunio ar gyfer mis Mai 2016 ymhellach. Argymhellwn y dylai'r grŵp hwn barhau i gynorthwyo gyda'r gwaith o gynllunio digwyddiadau etholiadol yn y dyfodol yn llwyddiannus.

Hefyd, noda'r adroddiad fod gweinyddwyr etholiadol yn dal i gael eu llesteirio gan wallau mewn rheoliadau, deddfwriaeth a ffurflenni rhagnodedig Cymraeg, ac oedi cyn eu cyhoeddi. O ganlyniad i hyn, rydym yn bwriadu sefydlu grŵp ar wahân sy'n canolbwyntio ar ddeddfwriaeth Gymraeg ac yn parhau i argymell y dylai llywodraethau reoli'r gwaith o ddatblygu a chymeradwyo deddfwriaeth mewn ffordd sy'n sicrhau ei bod yn glir o leiaf chwe mis cyn ei bod yn ofynnol ei rhoi ar waith neu gydymffurfio â hi.

Gan edrych i'r dyfodol, yn sgil y pwerau ychwanegol a ddarperir ar gyfer etholiadau'r Cynulliad a llywodraeth leol drwy Fil Cymru, byddwn yn meithrin ein cydberthynas â Chynulliad Cenedlaethol Cymru ymhellach drwy ffurfioli trefniadau atebolrwydd newydd a sefydlu Grŵp Cynghori'r Cynulliad.

Y tu hwnt i hyn, byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar amrywiol faterion ledled y DU sy'n ymwneud â gwella etholiadau a'r broses gofrestru.

Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth y DU barhau i ddatblygu'r gwasanaeth cofrestru ar-lein drwy alluogi defnyddwyr i weld p'un a ydynt eisoes wedi cofrestru'n gywir i bleidleisio cyn iddynt gyflwyno cais newydd i gofrestru. Bydd nid yn unig yn

lleihau'r baich o brosesu ceisiadau dyblyg sydd ar weinyddwyr etholiadol ond hefyd yn ei gwneud yn haws i bleidleiswyr allu diweddaru eu manylion a lleihau'r dryswch ynghylch p'un a yw rhywun wedi cofrestru ai peidio.

Rydym hefyd yn parhau i gefnogi adolygiad Comisiynau'r Gyfraith o gyfraith etholiadol a fyddai'n symleiddio ac yn gwella cyfraith etholiadol ledled y DU, gan alluogi etholiadau i gael eu cynnal yn llawer mwy effeithlon a chosteffeithiol nag y maent ar hyn o bryd.

Mae angen i adolygiad Comisiynau'r Gyfraith gael cymeradwyaeth Llywodraethau'r DU a'r Alban cyn symud ymlaen i gam nesaf y prosiect, sef y cam terfynol, a fydd yn cynnwys drafftio deddfwriaeth etholiadol newydd. Rydym yn dal i annog y naill Lywodraeth a'r llall i gefnogi gwaith Comisiynau'r Gyfraith i alluogi'r prosiect i symud ymlaen i'r cam nesaf.

Mae hefyd yn werth nodi, fel y mae pethau ar hyn o bryd, y bydd etholiad cyffredinol Senedd y DU ac etholiad ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn cael eu cynnal ar y cyd yng Nghymru yn 2020. Bydd y cyfuniad hwn yn her sylweddol iawn i'r gymuned etholiadol o ran rheoli'r broses yn effeithiol a chyfleu'r negeseuon a'r gwahaniaethau allweddol i bleidleiswyr. Felly, mae'n bwysig i Lywodraeth y DU asesu effaith yr etholiadau hyn ymhell cyn iddynt gael eu cynnal.

Yn olaf, ar ran y Comisiwn, hoffwn ddiolch i bawb a sicrhaodd fod yr etholiadau hyn yng Nghymru yn cael eu cynnal yn dda. Mae hyn yn cynnwys Grŵp Cyflawni Cymru, Swyddogion Canlyniadau, staff etholiadau, pleidiau gwleidyddol, ymgeiswyr, yr heddlu a phleidleiswyr yng Nghymru.

Gareth Halliwell
Comisiynydd Etholiadol, Cymru

Crynodeb gweithredol

Ynglŷn â'r etholiadau

Ar 5 Mai 2016, cynhaliwyd nifer o wahanol etholiadau ledled y DU. Mae'r adroddiad hwn yn edrych yn benodol ar weinyddiaeth yr etholiadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cyfunwyd yr etholiadau hyn â'r etholiadau ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yng Nghymru, a chynhaliwyd isetholiad Seneddol y DU yn Ogwr ar yr un diwrnod.

Er bod rhai problemau, y bydd yr adroddiad yn edrych arno yn fanylach, ar y cyfan, ein hasesiad yw bod etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi eu rhedeg yn dda gyda nifer fechan o broblemau. Roedd pleidleiswyr yn fodlon ar y cyfan gyda'r broses o gofrestru i bleidleisio a chofrestru yn bersonol yn yr orsaf bleidleisio neu drwy'r post neu ddirprwy.

Cofrestru a'r nifer a bleidleisiodd

Roedd cyfanswm o 2.246 miliwn o bobl wedi cofrestru i bleidleisio yn etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 5 Mai 2016. Roedd hyn yn llai nag yn 2011 a mymryn yn llai nag yn 2007. Pleidleisiodd mwy na 1.02 miliwn o bobl yn yr etholiadau.

Y nifer gyffredinol a bleidleisiodd oedd 45.6% yn yr etholiad etholaethol a 45.4% yn yr etholiad rhanbarthol. Y nifer fwyaf a bleidleisiodd oedd 56.8% yng Ngogledd Caerdydd a'r isaf oedd 34.6% yn Alun a Glannau Dyfrdwy. Dyma'r nifer uchaf ond un o bleidleiswyr a gofnodwyd mewn etholiadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Ffigur CG.1: Y nifer a bleidleisiodd yn etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 1999 - 2016



O gymharu, y nifer a bleidleisiodd yn etholiad Senedd yr Alban oedd 55.6% a'r nifer a bleidleisiodd yn yr etholiad i Gynulliad Gogledd Iwerddon oedd 54.9%. Mae adran 2.13 yn dangos y nifer a bleidleisiodd ym mhob un o'r etholiadau a gynhaliwyd ar 5 Mai.

Roedd gan gyfanswm o 17.6% o'r etholwyr bleidlais bost ar gyfer yr etholiad hwn. Mae hyn yn cymharu ag 17.0% yn 2011, 12.2% yn 2007 a 6.9% yn 2003. Dychwelwyd 73.9% o bleidleisiau post yn yr etholiad etholaethol a 73.8% o bleidleisiau post yn yr etholiad rhanbarthol. Roedd pleidleisiau post yn cyfrif am 27.6% o'r pleidleisiau a fwriwyd yn yr etholiad etholaethol a 27.5% yn yr etholiad rhanbarthol.

Gweinyddu'r etholiadau

Cynhaliwyd etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ledled 40 o etholaethau, sy'n cyfateb i etholaethau Senedd y DU, a phum rhanbarth etholiadol, sef:

- Gogledd Cymru
- Canolbarth a Gorllewin Cymru
- Gorllewin De Cymru
- Canol De Cymru
- Dwyrain De Cymru

Profiad y pleidleiswyr

Awgryma ein hymchwil i farn y cyhoedd fod y rhan fwyaf o bleidleiswyr o'r farn bod yr etholiadau wedi cael eu cynnal yn dda a'u bod yn fodlon ar y broses o gofrestru i bleidleisio a'r broses bleidleisio. Fodd bynnag, ychydig iawn o ymwybyddiaeth a geir o hyd o'r ffordd y mae'r broses gofrestru'n gweithio. Yn fwyaf nodedig, mae mwy nag un

o bob tri (35%) o bobl yn meddwl eich bod yn cael eich cofrestru'n awtomatig os ydych o oedran pleidleisio a dywed bron i un o bob tri (27%) y gallwch gofrestru i bleidleisio hyd at ddiwrnod cyn yr etholiad.

O ran yr etholiad ei hun, dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr eu bod yn gwybod llawer neu gryn dipyn am yr etholiadau hyn, gydag 81% yn cytuno bod ganddynt ddigon o wybodaeth am sut i fwrw eu pleidlais.

Pleidiau ac ymgeiswyr gwleidyddol

Tabl 1: Ymgeiswyr a phleidiau a gymerodd ran yn etholiadau 2016 o gymharu â 2011

	2011	2016
Ymgeiswyr etholaethol	176	248
Pleidiau Gwleidyddol ar restrau rhanbarthol	13	17
Ymgeiswyr annibynnol ar restrau rhanbarthol	1	2

O edrych ar nifer yr ymgeiswyr a rhestrau rhanbarthol a enwebwyd gan bleidiau gwleidyddol, gwelir y tueddiadau canlynol:

- Unwaith eto, enwebodd Llafur Cymru, y Ceidwadwyr Cymreig, Plaid Cymru a Democratiaid Rhyddfrydol Cymru ymgeiswyr ym mhob un o 40 o etholaethau'r Cynulliad a phob un o'r pum rhanbarth etholiadol.
- Enwebodd Plaid Annibyniaeth y DU (UKIP) ymgeiswyr mewn 38 o'r 40 o etholaethau, ac ym mhob un o'r pum rhanbarth, o gymharu â 2011 pan na wnaethant enwebu unrhyw ymgeiswyr etholaethol.
- Enwebodd Plaid Werdd Cymru, Plaid Diddymu Cynulliad Cymru a Rhyddid i Ddewis ymgeiswyr mewn etholiadau etholaethol a/neu ranbarthol, ond nid ym mhob etholaeth na rhanbarth.
- Enwebwyd ymgeiswyr etholaethol gan gyfanswm o 12 o bleidiau, a gwnaeth 17 o bleidiau gystadlu am seddi rhanbarthol.
- Hefyd, roedd ymgeiswyr annibynnol yn ymladd etholiad mewn wyth etholaeth a dau ranbarth.

Awgryma ein harolwg o ymgeiswyr ar ôl yr etholiad fod y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn cytuno ei bod yn hawdd cael gwybod sut i ddod yn ymgeisydd, a chytunodd bron i hanner fod y rheolau ar wariant a rhoddion yn glir.

Canlyniadau'r etholiadau

Tabl 2: Y Canlyniad Cenedlaethol

Pleidiau Gwleidyddol	Canran o'r bleidlais	Seddi etholaethol	Seddi rhanbarthol	Cyfanswm seddi
Llafur Cymru	33.1%	27	2	29
Plaid Cymru	20.7%	6	6	12
Y Ceidwadwyr Cymreig	20%	6	5	11

UKIP	12.7%	0	7	7
Y Democratiaid Rhyddfrydol	7.1%	1	0	1
Arall	3.2%	0	0	0
Y Blaid Werdd	2.7%	0	0	0
Annibynnol	0.5%	0	0	0

Argymhellion

Deddfwriaeth

Argymhelliad 1: Deddfwriaeth amserol a chywir yn Gymraeg ac yn Saesneg
Er mwyn sicrhau mwy o gywirdeb, rydym yn argymell cynnal trafodaeth ehangach ar y ffordd fwyaf effeithiol o wirio rheoliadau drafft ar gyfer etholiadau yng Nghymru cyn iddynt gael eu cyflwyno, gan arwain at sefydlu grŵp defnyddwyr i ystyried unrhyw reoliadau Cymraeg yn ystod y cyfnod drafftio. Dylai'r grŵp gynnwys staff y Comisiwn Etholiadol a chynrychiolwyr cymuned etholiadol Cymru, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt.

Byddem hefyd yn ailbwysleisio y dylai'r holl ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â digwyddiadau etholiadol, gan gynnwys deddfwriaeth gyllido, fod yn glir (naill ai drwy Gydsyniad Brenhinol i ddeddfwriaeth sylfaenol, neu drwy gyflwyno is-ddeddfwriaeth i'w chymeradwyo gan y Cynulliad / Senedd) o leiaf chwe mis cyn ei bod yn ofynnol ei rhoi ar waith neu gydymffurfio â hi - byddai hyn yn cynnwys ffurflenni rhagnodedig cywir ac amserol yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae unrhyw oedi cyn cyhoeddi ffurflenni Cymraeg yn rhoi timau etholiadau a phleidleiswyr yng Nghymru dan anfantais sylweddol a gall beri risg i'r etholiad dan sylw.

Grŵp Cyflawni Cymru

Argymhelliad 2: Grŵp Cyflawni Cymru
Dylai Grŵp Cyflawni Cymru parhaol barhau i gwrdd er mwyn gwella a symleiddio'r gwaith o gynllunio ar gyfer digwyddiadau etholiadol yn y dyfodol, a rhoi cyfleoedd i drafod meysydd allweddol sy'n peri pryder cyffredin. Bydd y Comisiwn yn drafftio cylch gorchwyl ac yn ceisio barn yr holl bartneriaid allweddol, a bydd y gwaith hwn yn dechrau erbyn diwedd 2016.

Argymhelliad 3: Lliw'r papur pleidleisio
Ar gyfer etholiadau yn y dyfodol, dylai Grŵp Cyflawni Cymru ystyried lliw'r papurau pleidleisio i'w defnyddio ar gyfer pob etholiad a gwneud argymhelliad priodol, gan roi eglurder i Swyddogion Canlyniadau a'u staff ar gam cynnar.

Argymhelliad 4: Gweithio ar lefel ranbarthol ac ar draws awdurdodau
Mae gweithio ar lefel ranbarthol yn gosod her sylweddol i Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol, Swyddogion Canlyniadau Etholaethol a gweinyddwyr etholiadol ac mae'n bwysig sicrhau bod rhwydweithiau a systemau cyfathrebu cadarn ar waith er mwyn hwyluso'r broses gynllunio.

Ar gyfer etholiadau rhanbarthol yn y dyfodol, byddwn yn hwyluso trafodaeth, drwy Grŵp Cyflawni Cymru, ynghylch sut y gallai Swyddogion Canlyniadau a gweinyddwyr etholiadol weithio ar draws awdurdodau er mwyn gwella prosesau gwneud penderfyniadau ac effeithiolrwydd gweithredol.

Ymgeisyddiaeth

Argymhelliad 5: Dechrau ymgeisyddiaeth
Dylai'r Llywodraeth berthnasol sicrhau bod dyddiad cyhoeddi'r hysbysiad etholiad ar yr un diwrnod ag y diddymir y Cynulliad, er mwyn osgoi cyfnod o amser lle na chaiff gwariant ei reoleiddio.

Costau ymgyrchu

Argymhelliad 6: Costau sy'n gysylltiedig ag anabledd unigolyn a chyfieithu o'r Gymraeg i Saesneg ac fel arall
Dylai Llywodraethau sydd â chymhwysedd deddfwriaethol dros etholiadau yn y DU ddiwygio'r diffiniadau o wariant ymgeiswyr neu bleidiau gwleidyddol fel bod treuliau rhesymol y gellir eu priodoli i anabledd unigol yn cael eu heithrio (fel y nodwyd yn ddiweddar yn rheolau diwygiedig Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA) ar gyfer ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau).

Gan fod rheolau PPERA ar gyfer ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau bellach yn eithrio'r costau sy'n gysylltiedig â chyfieithu o'r Gymraeg i Saesneg ac fel arall, argymhellwn y dylai'r Llywodraeth berthnasol/y Llywodraethau perthnasol gyflwyno darpariaethau cyfreithiol cyfatebol i'r rheolau etholiadau sy'n ymwneud â gwariant ar ymgyrchu gan ymgeiswyr a phleidiau gwleidyddol.

Cofrestru pleidiau

Argymhelliad 7:
Cofrestru enwau a disgrifiadau pleidiau i'w defnyddio ar bapurau pleidleisio
Rydym yn parhau i argymell, lle y bo ymgeisydd yn cynrychioli plaid wleidyddol ar bapur pleidleisio, y dylai fod yn glir i bleidleiswyr pa blaid y mae'r ymgeiswyr yn ei chynrychioli. Mae'r darpariaethau cyfreithiol ar gyfer cofrestru disgrifiadau pleidiau yn peri risg y caiff pleidleiswyr eu drysu ac yn cyfyngu ar gyfranogiad pleidiau gwleidyddol. Dylai Llywodraeth Cymru a Llywodraethau eraill y DU gydweithio â'r Comisiwn Etholiadol er mwyn diwygio'r darpariaethau ynghylch disgrifiadau pleidiau.

Gwariant ymgeiswyr

Argymhelliad 8: Tryloywder a hygyrchedd gwariant ymgeiswyr
Er mwyn gwneud ffurflenni gwariant ymgeiswyr yn fwy tryloyw a hygyrch, rydym wedi argymell yn y gorffennol y dylai fod yn ofynnol i Swyddogion Canlyniadau gyhoeddi ffurflenni gwariant ar-lein yn ogystal â thrwy'r dulliau presennol o archwilio gan y cyhoedd. Rydym yn cefnogi argymhelliad 12-5 o adolygiad 12 Comisiwn y Gyfraith o Gyfraith Etholiadol sy'n cynnig dull o roi'r newid hwn ar waith drwy ddeddfwriaeth.[1]

Pwerau'r Comisiwn

Argymhelliad 9: Ymestyn pwerau ymchwilio a gosod sancsiynau
Rydym yn parhau i argymell ymestyn ein pwerau ymchwilio a gosod sancsiynau mewn etholiadau mawr yn achos troseddau sy'n ymwneud â gwariant a rhoddion ymgeiswyr, gan gynnwys yn etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Bydd yn bwysig i Lywodraethau a Seneddau ledled y DU gydweithio er mwyn cyflwyno pwerau newydd y Comisiwn ar gyfer gwahanol setiau o etholiadau.

Cyfryngau cymdeithasol

Argymhelliad 10: Adrodd ar ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol mewn etholiadau yn y dyfodol
Byddwn yn ystyried ymhellach sut y dylai ymgyrchwyr adrodd ar wariant ar gyfryngau cymdeithasol mewn etholiadau yn y dyfodol. Wrth i wariant yn y maes hwn gynyddu, ceir potensial am lai o dryloywder os na ellir nodi gwariant ar gyfryngau cymdeithasol yn hawdd yn y ffurflenni gwariant, oherwydd nid yw cyfryngau cymdeithasol yn gategori penodol ar y ffurflen. Bydd angen ystyried hyn fel rhan o'r broses o adolygu'r holl gategorïau gwariant yr adroddir arnynt er mwyn sicrhau eu bod yn dal i fod yn gymesur ac yn berthnasol i dueddiadau ymgyrchu yn y dyfodol. Rhag ofn y byddai angen rhoi unrhyw rai o'r newidiadau hyn ar waith drwy ddeddfwriaeth, argymhellwn y dylai Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a deddfwrfeydd ystyried yr amseru sydd ei angen ar gyfer rhoi newidiadau ar waith cyn yr etholiadau mawr nesaf[2].

---

[1] Adolygiad Comisiwn y Gyfraith o Gyfraith Etholiadol, Argymhelliad 12-3, tudalen 161 (yn Saesneg yn unig) http://www.lawcom.gov.uk/wp-content/uploads/2016/02/electoral_law_interim_report.pdf ac argymhelliad 37 o Adolygiad Rheoleiddiol y Comisiwn Etholiadol o Gyllid Pleidiau ac Etholiadau 2013 (yn Saesneg yn unig) http://www.electoralcommission.org.uk/__data/assets/pdf_file/0008/157499/PEF-Regulatory-Review-2013.pdf.

[2] Gwnaethom yr un argymhelliad mewn perthynas â chategorïau gwariant Etholiad Seneddol y DU, ac ar gyfer etholiadau Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon yn ein hadroddiadau ôl-etholiad yn 2015 a 2016.

Cofrestru etholiadol

Argymhelliad 11: Darparu ffordd o wirio statws cofrestru ar-lein
Byddai darparu ffordd i etholwyr wirio eu statws cofrestru ar ddechrau'r broses o wneud cais ar-lein i gofrestru yn golygu bod angen i bleidleiswyr wneud llai er mwyn sicrhau bod eu cofnod ar y gofrestr yn gyfredol, a byddai hefyd yn lleihau'r baich o brosesu ceisiadau dyblyg sydd ar Swyddogion Cofrestru Etholiadol.

Dylai Llywodraeth y DU ddatblygu gwasanaeth ar-lein er mwyn galluogi pobl i wirio p'un a ydynt eisoes wedi cofrestru'n gywir i bleidleisio cyn iddynt gwblhau cais newydd i gofrestru.

Byddai angen i unrhyw wasanaeth o'r fath reoli a diogelu gwybodaeth bersonol pleidleiswyr yn ofalus.

1 Cyflwyniad

Ynglŷn â'n rôl a'r adroddiad hwn

Ein rôl

1.1 Mae'r Comisiwn Etholiadol yn gorff annibynnol sy'n adrodd yn uniongyrchol wrth Senedd y DU. Rydym yn rheoleiddio cyllid pleidiau gwleidyddol ac etholiadau ac yn gosod safonau ar gyfer etholiadau a gynhelir yn dda. Rydym yn rhoi pleidleiswyr yn gyntaf drwy weithio i gefnogi democratiaeth iach, lle y seilir etholiadau a refferenda ar ein hegwyddorion sef ymddiriedaeth, cyfranogiad a dim dylanwad gormodol.

- **Ymddiriedaeth:** dylai fod modd i bobl ymddiried yn y ffordd y mae ein hetholiadau yn gweithio a'r ffordd y mae ein system cyllid gwleidyddol yn gweithio
- **Cyfranogi:** Dylai fod yn syml i bobl gymryd rhan yn ein hetholiadau a'n system cyllid gwleidyddol, p'un a ydynt yn pleidleisio neu'n ymgyrchu: a dylai pobl fod yn hyderus bod eu pleidlais yn cyfrif
- **Dim dylanwad gormodol**: ni ddylai fod dim dylanwad gormodol o ran y ffordd y mae ein hetholiadau a'n system cyllid gwleidyddol yn gweithio

1.2 Rydym am i bobl ledled y DU fod yn hyderus y caiff y broses cofrestru etholiadol a digwyddiadau etholiadol eu cynnal yn dda, ac y byddant yn cael gwasanaeth o ansawdd uchel yn gyson, lle bynnag maent yn byw, ni waeth pa etholiadau neu refferenda a gynhelir.

1.3 Dylai fod yn hawdd i bobl sydd am sefyll etholiad gael gwybod sut i wneud hynny, beth yw'r rheolau, a beth mae'n rhaid iddynt ei wneud i gydymffurfio â'r rheolau hyn. Rydym yn darparu canllawiau cynhwysfawr i unrhyw un sydd am sefyll fel ymgeisydd neu fod yn asiant, sy'n cwmpasu'r broses gyfan, gan gynnwys y prif gamau tuag at sefyll fel ymgeisydd, cyfnodau'r ymgyrch a'r etholiad, datgan y canlyniad a'r gwariant ar yr etholiad. Rydym hefyd yn cofrestru pleidiau ac ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau ac yn darparu canllawiau cynhwysfawr i bleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau, gan gynnwys cymorth a chyngor ymarferol.

Yr adroddiad hwn

1.4 Mae'r adroddiad hwn yn nodi ein hasesiad o ba mor dda y gweinyddwyd y bumed set o etholiadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

1.5 Mae ein gwaith dadansoddi yn myfyrio ar brofiad y pleidleiswyr, yn seiliedig ar ymchwil i farn y cyhoedd a data etholiadol a ddarparwyd gan Swyddogion Canlyniadau Etholaethol a Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol, yn ogystal ag adborth a barn ar y ffordd y gweinyddwyd yr etholiadau gan ymgeiswyr ac asiantiaid, y rhai a oedd yn gyfrifol am gynnal yr etholiadau, a chyfranogwyr eraill.

1.6 Mae Bil Cymru, a gyflwynwyd i Senedd y DU ar 7 Mehefin 2016, yn rhoi cymhwysedd deddfwriaethol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer gweinyddu a rheoleiddio etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a llywodraeth leol. Felly, yn dilyn Cydsyniad Brenhinol i Fil Cymru, Llywodraeth Cymru fyddai'n gyfrifol am unrhyw

argymhellion yn yr adroddiad hwn sy'n ymwneud â newidiadau deddfwriaethol ar gyfer yr etholiadau hyn.

Ynglŷn â'r etholiadau

1.7 Ar 5 Mai 2016, cynhaliwyd yr etholiadau canlynol hefyd, ochr yn ochr ag etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

- Senedd yr Alban
- Cynulliad Gogledd Iwerddon
- Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu (Cymru a Lloegr) – ac eithrio Llundain a Manceinion Fwyaf.
- Cynulliad Llundain a Maer Llundain
- Llywodraeth leol ledled rhannau o Loegr ac etholiadau Maerol (Bryste, Lerpwl a Salford)
- Is-etholiadau Seneddol y DU yn Ogwr (Cymru) a Hillsborough a Brightside (Lloegr).

1.8 Mae ein hadroddiadau ar yr etholiadau a gynhaliwyd ar yr un diwrnod, gan gynnwys yr etholiadau ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yng Nghymru, i'w gweld ar ein gwefan yma.

1.9 Yng Nghymru, cyfunwyd etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru â'r etholiadau ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu. Hefyd, cynhaliwyd is-etholiad Seneddol y DU yn Ogwr yn dilyn ymddiswyddiad yr AS ar y pryd.

1.10 Ers 2011, cynhelir etholiadau i'r Cynulliad ar sail cyfnod penodol o bum mlynedd, ar ôl cael eu cynnal bob pedair blynedd cyn hynny. Cynhaliwyd y set gyntaf o etholiadau i'r Cynulliad ym mis Mai 1999, gydag etholiadau dilynol yn 2003, 2007 a 2011. Gwnaethom gyflwyno adroddiadau ar etholiadau 2003, 2007 a 2011.

1.11 Gwnaeth cyfuno'r etholiadau hyn â'r etholiadau ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu osod heriau ychwanegol i Swyddogion Canlyniadau a'u staff, gan gynnwys:

- Defnyddio dwy system etholiadol wahanol, gan ymgorffori dwy ffordd o bleidleisio, gyda thri phapur pleidleisio.
- Yr angen i roi gwybodaeth glir a phenodol i bleidleiswyr am sut i fwrw eu pleidlais.
- Er y gweinyddwyd yr etholiadau ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ar sail ffiniau etholaethol y Cynulliad, roedd nifer o etholaethau'r Cynulliad yn croesi ffiniau awdurdodau lleol ac nid oedd pob ardal heddlu yn cyd-fynd ag un o ranbarthau'r Cynulliad, a oedd yn ychwanegu at natur gymhleth y prosesau dan sylw.
- Yr angen am gydweithredu agos rhwng Swyddogion Canlyniadau Ardaloedd yr Heddlu a Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol a Lleol er mwyn sicrhau bod pleidleiswyr yn cael gwasanaeth o ansawdd uchel yn gyson ni waeth ble roeddent yn byw a lleihau unrhyw ddryswch ymhlith pleidleiswyr.

1.12 Roedd ein hadroddiad ar etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn 2012 yn ei gwneud yn glir y byddai angen i Lywodraeth y DU ystyried yr heriau hyn yn ofalus pe bai'n penderfynu bwrw iddi â chyfuno etholiadau.

Cofrestru a'r nifer a bleidleisiodd

1.13 Roedd cyfanswm o 2,247,377 o bobl wedi cofrestru i bleidleisio yn etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 5 Mai 2016. Bwriwyd 1,035,002 o bleidleisiau yn yr etholiadau etholaethol, sef 46.1% o'r etholwyr. Bwriwyd 1,032,854 o bleidleisiau yn yr etholiadau rhanbarthol, sef 46.0% o'r etholwyr.

1.14 Mae nifer y papurau pleidleisio a wrthodwyd yn dal i fod yn isel iawn. Yn wir, y cyfansymiau o ran nifer a chanran ar gyfer 2016 yw'r isaf ers i ni ddechrau cadw cofnodion. Gwrthodwyd cyfanswm o 5,509 (0.5%) o bapurau pleidleisio etholaethol a 6,491 (0.6%) o bapurau pleidleisio rhanbarthol. Y tro hwn, gwrthodwyd mymryn yn fwy o bapurau pleidleisio (0.1% o'r cyfanswm) ar lefel ranbarthol nag ar lefel etholaeth.

1.15 Mae'r siart isod yn dangos y ganran o bleidleiswyr cofrestredig a bleidleisiodd yn yr holl wahanol etholiadau a gynhaliwyd ar 5 Mai. Yn yr etholiadau ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu y pleidleisiodd y ganran isaf (27%). Mewn ardaloedd lle na chyfunwyd yr etholiadau ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ag etholiad arall yn Lloegr, roedd y ganran yn is eto – tua 20%.

Ffigur 1.1: Y nifer a bleidleisiodd yn yr etholiadau a gynhaliwyd ar 5



Nifer a bleidleisiodd yn y blwch pleidleisio - mae hyn yn cynnwys y pleidleisiau a

Rolau a chyfrifoldebau am reoli a chyflawni etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

1.16 Cynhelir etholiadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar sail cyfnod penodol o bum mlynedd. Defnyddir y system aelodau ychwanegol i ethol Aelodau Cynulliad.

1.17 Caiff deugain o Aelodau Cynulliad eu hethol o etholaethau un aelod, a hynny gan ddefnyddio system y cyntaf i'r felin.

1.18 Caiff ugain o Aelodau Cynulliad eu hethol ar lefel ranbarthol gan ddefnyddio'r system rhestr plaid gaeëdig. Gall ymgeiswyr annibynnol hefyd sefyll etholiad ar y rhestr ranbarthol. Mae pum rhanbarth etholiadol, â phob un yn ethol pedwar Aelod Cynulliad rhanbarthol. Dyrennir seddi rhanbarthol yn ôl fformwla fathemategol (dull d'Hondt), sy'n cynnwys rhannu cyfanswm nifer y pleidleisiau rhanbarthol a gaiff plaid neu ymgeisydd annibynnol â nifer y seddi etholaethol a enillwyd eisoes yn y rhanbarth hwnnw, ac un ychwanegol.

1.19 Mae'r system etholiadol yn golygu bod gan bleidleiswyr ddwy bleidlais yn yr etholiadau hyn, ar ddau bapur pleidleisio ar wahân. I bleidleisio mewn etholiad etholaethol, bydd pleidleiswyr yn rhoi croes (X) yn y blwch gyferbyn ag enw un ymgeisydd. I bleidleisio mewn etholiad rhanbarthol, bydd pleidleiswyr yn rhoi croes (X) yn y blwch gyferbyn ag enw un blaid wleidyddol neu ymgeisydd annibynnol.

Swyddogion Cofrestru Etholiadol

1.20 Mae Swyddog Cofrestru Etholiadol yn gyfrifol am gynnal y gofrestr etholwyr a'r rhestrau o bleidleiswyr absennol ar gyfer ei ardal. Fel arfer, mae'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn un o uwch swyddogion y cyngor sydd, mewn rhai achosion, yn cael ei gyflogi'n uniongyrchol gan y cyngor. Mae 22 o Swyddogion Cofrestru Etholiadol yng Nghymru.

Swyddogion Canlyniadau Etholaethol

1.21 Yn etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, cyfrifoldeb y Swyddog Canlyniadau Etholaethol, sy'n un o uwch swyddogion awdurdod lleol, yw gweinyddu'r etholiad. Mae 22 o Swyddogion Canlyniadau Etholaethol yng Nghymru.

1.22 Mae'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol yn gyfrifol am weinyddu enwebiadau ymgeiswyr yn yr etholaeth a ymleddir, trefn cynnal yr etholiad, cyfrif y pleidleisiau ar gyfer etholiad yr etholaeth a'r rhan honno o'r etholiad rhanbarthol a gaiff ei chynnwys yn yr etholaeth, a datgan canlyniad yr etholaeth. Caiff y Swyddog Canlyniadau Etholaethol ei gefnogi gan dîm o weinyddwyr etholiadol.

Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol

1.23 Mae'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yn gyfrifol am weinyddu enwebiadau pleidiau ac ymgeiswyr unigol yn yr etholiad rhanbarthol a ymleddir a chyfrifo / datgan y canlyniad rhanbarthol. Bydd y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol hefyd yn Swyddog Canlyniadau Etholaethol, ac fe'i dynodir gan Weinidogion Cymru. Gan fod etholiadau

Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi'u cyfuno â'r etholiadau ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol mewn pedwar o'r pum achos oedd Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu hefyd.

1.24 Mae map sy'n nodi ardaloedd yr heddlu, ac etholaethau awdurdodau lleol a'r Cynulliad, wedi'i gynnwys yn Atodiad A.

Grŵp Cyflawni Cymru

1.25 Gwnaethom sefydlu Grŵp Cyflawni Cymru yn 2015 er mwyn sicrhau dull cydgysylltiedig o gynllunio ar gyfer etholiadau cyn etholiadau mis Mai.

1.26 Roedd y grŵp yn dwyn ynghyd y pum Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yng Nghymru â chydweithwyr o Lywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Chymdeithas Gweinyddwyr Etholiadol Cymru.

1.27 Rhoddir rhagor o wybodaeth am waith y grŵp hwn yn adran 3.29 – 3.36.

AEA Cymru

1.28 Mae Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol (AEA) yn rhoi help a chyngor i weithwyr proffesiynol yn y DU sy'n ymwneud â gweinyddu etholiadau. Mae 11 o ganghennau rhanbarthol ledled y DU. Mae swyddfa Cymru y Comisiwn Etholiadol yn cwrdd â chynrychiolwyr o AEA Cymru bob chwarter er mwyn trafod materion yn ymwneud â chynnal etholiadau a chofrestru pleidleiswyr.

Pleidiau gwleidyddol, ymgeiswyr ac ymgyrchwyr

1.29 Mae pleidiau gwleidyddol, ymgeiswyr ac ymgyrchwyr yn elfennau hanfodol o ddemocratiaeth iach am eu bod yn cyflwyno eu dadleuon i bleidleiswyr ac yn annog pobl i gymryd rhan mewn etholiadau. Mae Panel Pleidiau'r Cynulliad yn gorff sy'n cynnwys uwch swyddogion y pleidiau gwleidyddol hynny a gynrychiolir yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru. Cafodd ei alw ynghyd gan y Comisiwn, ac mae'n gyfle i friffio ymgyrchwyr am y broses etholiadol, o enwebiadau i gyflwyno adroddiadau ar ôl yr etholiad. Hefyd, aeth y Comisiwn i sesiynau briffio a gynhaliwyd gan awdurdodau lleol ar gyfer ymgeiswyr ac asiantiaid, gan roi arweiniad ysgrifenedig ac wyneb yn wyneb iddynt ar y broses enwebu, gwariant a rhoddion a chyflwyno adroddiadau ar ôl yr etholiad. Gwnaethom hefyd ddarparu cyfres o fwletinau i ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau a hwyluso sesiwn friffio cyn i'r cyfnod a reoleiddir ddechrau ar 5 Ionawr 2016.

Yr Heddlu

1.30 Ar ôl iddynt gael eu creu o fewn pob heddlu cyn etholiadau'r Cynulliad yn 2007, roedd swyddogion dynodedig, neu Bwyntiau Cyswllt Unigol, unwaith eto'n gweithredu fel canolbwynt i swyddogion yr heddlu a swyddfeydd etholiadol mewn perthynas â thwyll etholiadol a honiadau o droseddau. Roedd Pwyntiau Cyswllt Unigol yn bresennol mewn seminarau gyda staff etholiadol ledled Cymru yn ystod gwanwyn 2016, i baratoi ar gyfer etholiadau 2016, a gwnaethant gyfrannu at ein hadolygiad ôl-etholiad er mwyn gweithredu ar y gwersi a ddysgwyd.

1.31 Fel yn 2011, Pwynt Cyswllt Unigol Heddlu De Cymru oedd yn gyfrifol am arwain y gwaith a chysylltu â heddluoedd eraill yng Nghymru er mwyn gweithredu fel 'Pwynt Cyswllt Unigol Arweiniol'. Arweiniodd hyn at ddull cydgysylltiedig o baratoi ar gyfer etholiadau mis Mai a refferendwm yr UE, gan hwyluso'r broses o ddosbarthu cyngor a chanllawiau hefyd.

1.32 Gwnaeth y Comisiwn Etholiadol hefyd drefnu seminar uniondeb a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2016, lle rhoddwyd sesiwn friffio i bob Pwynt Cyswllt Unigol yng Nghymru, yn ogystal ag amser i drafod y gwaith o gynllunio ar gyfer etholiadau 2016.

Y Post Brenhinol

1.33 Bu'r Post Brenhinol yn cydweithio'n agos â'r Comisiwn, y Swyddogion Canlyniadau a'r pleidiau gwleidyddol/ymgeiswyr annibynnol er mwyn dosbarthu miliynau o daflenni a chardiau pleidleisio a phecynnau pleidleisio drwy'r post i etholwyr ledled Cymru yn ystod cyfnod etholiad cyffredinol i Gymru. Bu hefyd yn cydweithio â'r pleidiau gwleidyddol a'r ymgeiswyr unigol i anfon taflenni rhadbost at etholwyr cyn yr etholiadau hyn.

2 A gafodd etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru eu cynnal yn dda? Profiad y pleidleiswyr

2.1 Mae'r bennod hon yn nodi prif ganfyddiadau ein hymchwil i farn y cyhoedd, sef rhan bwysig o'n hasesiad o b'un a gafodd yr etholiadau eu cynnal yn dda. Mae'n ystyried profiad pobl o gofrestru i bleidleisio a chymryd rhan yn yr etholiad, gan gynnwys rhesymau pobl dros beidio â phleidleisio a ph'un a oedd pobl o'r farn eu bod wedi cael digon o wybodaeth am yr etholiadau a'r ymgeiswyr i allu gwneud penderfyniad hyddysg.

2.2 Ar y cyfan, awgryma'r dystiolaeth o'n hymchwil i farn y cyhoedd fod y gan y rhan fwyaf o bleidleiswyr farn gadarnhaol ar y broses etholiadol a bod y mwyafrif (83%) yn hyderus bod yr etholiadau wedi cael eu cynnal yn dda. Dengys ein hymchwil ymhlith ymgeiswyr hefyd fod y rhan fwyaf o ymgeiswyr (88%) yn fodlon ar y ffordd y gweinyddwyd yr etholiad hwn. Yn y ddau etholiad cyffredinol diwethaf i Senedd y DU, roedd boddhad ymgeiswyr yn 84% yn 2015 ac 80% yn 2010.

Y profiad o gofrestru i bleidleisio

Ffigur 2.1: Pa mor fodlon ydych chi ar y broses o gofrestru i bleidleisio?



Etholiadau Mai 2016 – Arolwg ôl-etholiad. Ffynhonnell: BMG/Y Comisiwn Etholi
Sylfaen: 701 (amhwysol).
C: Pa mor fodlon neu anfodlon oeddech chi ar y weithdrefn ar gyfer cynnwys eich en

2.3 Dywedodd naw o bob 10 o ymatebwyr i'n hymchwil i farn y cyhoedd (91%) eu bod yn fodlon ar y weithdrefn ar gyfer cofrestru i bleidleisio, gyda 68% yn 'fodlon iawn'. Dim ond 1% a ddywedodd eu bod yn anfodlon.

2.4 Fodd bynnag, gwnaethom nodi mai ychydig iawn o ymwybyddiaeth a geir o hyd o'r ffordd y mae'r broses gofrestru'n gweithio. Yn fwyaf nodedig:

- Mae mwy na un o bob tri (35%) yn meddwl eich bod yn cael eich cofrestru'n awtomatig os ydych o oedran pleidleisio;
- Dywed bron i un o bob tri (27%) y gallwch gofrestru i bleidleisio hyd at ddiwrnod cyn yr etholiad;
- Dim ond 12% o'r ymatebwyr sy'n ymwybodol o'r risg o gael dirwy am beidio â chofrestru i bleidleisio;
- Mae dau o bob tri (67%) yn ymwybodol o'r broses gofrestru ar-lein;
- Mae pobl ifanc yn fwy tebygol o fod yn ymwybodol o'r broses gofrestru ar-lein a'r ffaith na chânt eu cofrestru'n awtomatig pan fyddant yn cyrraedd 18 oed.

Rhesymau dros bleidleisio

Ffigur 2.2: Pam y gwnaethoch bleidleisio?



Etholiadau Mai 2016 – Arolwg ôl-etholiad. Ffynhonnell: BMG/Y Comisiwn Etholiadol. Sylfaen: 551 (amhwysol).
C: Roedd gan bobl lawer o resymau dros beidio â phleidleisio yn yr etholiadau. Pam y gwnaethoch bleidleisio yn etholiadau Cynulliad Cenedlaethol

2.5 Fel y gwelir yn Ffigur 2.2, roedd y rhesymau mwyaf cyffredin dros bleidleisio yn etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2016 yn gysylltiedig â 'chyfrifoldeb dinesig'

(70%), sef y rheswm mwyaf cyffredin dros bleidleisio fel arfer, ac roedd yr ymatebion mwyaf cyffredin ar ôl hynny yn gysylltiedig â 'mynegi barn' (34%).

2.6 Yn unol ag arolygon blaenorol, roedd y rhesymau mwyaf cyffredin dros beidio â phleidleisio yn gysylltiedig ag 'Amgylchiadau' (58%), megis 'Diffyg amser/Rhy brysur' (31%) ac 'Roeddwn i ffwrdd' (9%). Nododd un o bob pedwar o bleidleiswyr (25%) 'Dim diddordeb/Dim pwynt' fel rheswm dros beidio â phleidleisio.

Ffigur 2.3: Pam na wnaethoch bleidleisio?



Etholiadau Mai 2016 – Arolwg ôl-etholiad. Ffynhonnell: BMG/Y Comisiwn Etholiadol. Sylfaen: 145 (amhwysol).
C: Roedd gan bobl lawer o resymau dros beidio â phleidleisio yn yr etholiadau. Pam na wnaethoch bleidleisio yn etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddydd Iau 5 Mai?

Gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o'r etholiadau

A oedd pobl yn teimlo eu bod wedi cael eu hysbysu am yr etholiadau?

2.7 Roedd ein hymchwil i farn y cyhoedd yn gofyn i bobl faint roeddent yn ei wybod, yn eu tyb hwy, am yr etholiadau ar 5 Mai 2016.

2.8 Dywedodd mwy nag wyth o bob 10 o ymatebwyr (71%) eu bod yn gwybod llawer neu gryn dipyn am etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gydag 20% yn dweud 'llawer'. Roedd wyth o bob 10 o ymatebwyr (80%) yn cytuno eu bod wedi cael digon o wybodaeth am sut i fwrw eu pleidlais yn etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru – roedd 47% yn cytuno'n gryf. Roedd gwybodaeth am etholiad Cynulliad Cenedlaethol

Cymru yn uwch o lawer na gwybodaeth am yr etholiadau ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu (27%), a gynhaliwyd yng Nghymru ar yr un diwrnod.

2.9 Gwnaethom hefyd ofyn i ymatebwyr am y sylw a roddwyd i etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru: roedd 69% yn cytuno bod llawer o sylw yn y cyfryngau i etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru (roedd 21% yn anghytuno) ac roedd 47% yn cytuno bod refferendwm yr UE wedi cael llawer mwy o sylw nag etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru (roedd 35% yn anghytuno).

Ffigur 2.4: Faint roeddech yn ei wybod am etholiad Cynulliad Cenedlaethol



Etholiadau Mai 2016 – Arolwg ôl-etholiad. Ffynhonnell: BMG/Y Comisiwn Etholiadol. Sylfaen: 701 (amhwysol).
C: Faint, os o gwbl, roeddech yn ei wybod am etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a gynhaliwyd ddydd Iau 5 Mai yn eich barn chi?

Y gallu i gael gafael ar wybodaeth

2.10 Dywedodd cyfran fawr o ymatebwyr (81%) ei bod yn hawdd cael gafael ar wybodaeth am sut i fwrw eu pleidlais yn etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gyda 35% yn dweud ei bod yn hawdd iawn.

2.11 Dywedodd bron i wyth o bob 10 (78%) ei bod yn hawdd cael gafael ar wybodaeth am ddiben etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru, tra bod 75% yn dweud ei bod yn hawdd cael gafael ar wybodaeth am ymgeiswyr.

Ffigur 2.5: Pa mor hawdd neu anodd oedd hi i gael gwybodaeth am...?



Etholiadau Mai 2016 – Arolwg ôl-etholiad. Ffynhonnell: BMG/Y Comisiwn Etholiadol. Sylfaen: 701 (amhwysol).
C: Ar gyfer pob un o'r datganiadau canlynol, a oedd hi'n hawdd iawn, yn eithaf hawdd, ddim yn hawdd nac yn anodd, yn eithaf anodd neu'n anodd iawn cael gwybodaeth am y canlynol yn eich barn chi?

2.12 Roedd ein hymchwil i farn y cyhoedd hefyd yn ystyried p'un a oedd pleidleiswyr yn cytuno eu bod wedi cael digon o wybodaeth am yr etholiadau a'r ymgeiswyr a oedd yn sefyll ynddynt.

2.13 Dywedodd 75% eu bod wedi cael digon o wybodaeth am yr ymgeiswyr er mwyn gallu gwneud penderfyniad hyddysg ynghylch pwy y dylent bleidleisio drostynt: roedd 36% yn cytuno'n gryf ac roedd 38% yn tueddu i gytuno. Mae hyn yn cymharu â 26% o ymatebwyr yng Nghymru a ddywedodd yr un peth am yr ymgeiswyr yn yr etholiadau ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu – roedd 11% yn cytuno'n gryf ac roedd 15% yn tueddu i gytuno.

Profiad pobl o bleidleisio

2.14 Ar y cyfan, dengys ein hymchwil i farn y cyhoedd fod ymatebwyr yn teimlo'n gadarnhaol iawn am y profiad o bleidleisio, gyda 97% o bleidleiswyr mewn gorsafoedd pleidleisio yn fodlon ar y broses. Roedd 83% o bobl hefyd yn hyderus bod yr

etholiadau'n cael eu cynnal yn dda, sy'n uwch na'r ffigur yn 2011. Roedd bron i dri chwarter yr ymgeiswyr, (72%) yn cytuno bod yr etholiad wedi cael ei gynnal yn dda.

2.15 Roedd pleidleiswyr hefyd yn fodlon ar y cymorth a roddwyd gan staff gorsafoedd pleidleisio, gydag 84% yn dweud bod hyn yn ddefnyddiol iddynt. Hefyd, roedd 75% o'r farn bod y deunydd ysgrifenedig mewn gorsafoedd pleidleisio yn ddefnyddiol.

2.16 Roedd bron i 93% o bleidleiswyr post yn fodlon ar y broses o bleidleisio drwy'r post.

Papurau pleidleisio a wrthodwyd

2.17 Cyn cael eu cyfrif, bydd papurau pleidleisio yn mynd drwy broses ddidoli. Bydd rhai ohonynt yn bapurau pleidleisio 'dilys' y mae'r pleidleiswyr wedi eu marcio gan ddilyn y cyfarwyddiadau yn union neu'n agos. Caiff y rhain eu cynnwys yn y broses gyfrif a'u dyrannu i'r ymgeisydd neu'r blaid berthnasol. Bydd rhai eraill ohonynt yn bapurau pleidleisio nad yw'r pleidleiswyr wedi dilyn y cyfarwyddiadau ar gyfer eu marcio. Gelwir y papurau pleidleisio hynny yn 'bapurau pleidleisio amheus' a chânt eu rhoi i'r Swyddog Canlyniadau i'w dyfarnu.

2.18 Bydd y papurau pleidleisio hynny na ddyfernir eu bod yn 'ddilys' yn cael eu gwrthod gan y Swyddog Canlyniadau. Dangosir y rhesymau a'r categorïau ar gyfer papurau pleidleisio a wrthodwyd yn y tabl isod.

Tabl 2.1: Rhesymau dros wrthod papurau pleidleisio yn etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Y rheswm dros wrthod y papur pleidleisio	Etholaeth		Rhanbarthol	
	Nifer y papurau pleidleisio a wrthodwyd[3]	%	Nifer y papurau pleidleisio a wrthodwyd	%
Heb ei farcio neu'n ddi-rym oherwydd ansicrwydd	3,461	62.8	4,391	67.6
Pleidleisio dros ormod o ymgeiswyr neu bleidiau	1,607	29.2	2,052	31.6
Ysgrifen neu farc sy'n eich galluogi i adnabod y pleidleisiwr	88	1.6	48	0.7
Dim marc swyddogol	137	2.5	0	0

2.19 Mae nifer y papurau pleidleisio a wrthodwyd yn dal i fod yn isel iawn, gyda 5,509 o bapurau pleidleisio a wrthodwyd yn y prosesau cyfrif etholaethol a 6,491 o bapurau pleidleisio a wrthodwyd yn y prosesau cyfrif rhanbarthol. Y cyfansymiau o ran nifer a chanran ar gyfer 2016 yw'r isaf ers dechrau cadw cofnodion. Gwrthodwyd mymryn yn fwy o bapurau pleidleisio (0.1% o'r cyfanswm) yn yr etholiad rhanbarthol. Y rheswm mwyaf cyffredin o bell ffordd dros wrthod papur pleidleisio oedd papur heb ei farcio neu ansicrwydd ynghylch bwriad y pleidleisiwr.

[3] Ceir gwahaniaeth o 162 rhwng y dadansoddiad o bapurau pleidleisio a wrthodwyd sydd wedi'i gynnwys yn y tabl a chyfanswm nifer y papurau pleidleisio a wrthodwyd am fod rhai etholaethau wedi rhoi cyfanswm nifer y papurau pleidleisio a wrthodwyd yn unig, yn hytrach na dadansoddiad fesul categori.

Cwblhau'r papur pleidleisio

Ffigur 2.6: Pa mor hawdd neu anodd oedd hi i lenwi'r papur pleidleisio?



Etholiadau Mai 2016 – Arolwg ôl-etholiad. Ffynhonnell: BMG/Y Comisiwn Etholiadol.
C: Dywedodd rhai pobl ei bod yn anodd llenwi'r papur pleidleisio wrth bleidleisio yn yr etholiadau cyffredinol. Pa mor hawdd neu anodd oedd hi i lenwi'r papur pleidleisio ar gyfer yr etholiad hwn yn eich barn chi? Sylfaen: 552 (amhwysol).

2.20 Fel yr esboniwyd ym mharagraff 1.17, defnyddir y system aelodau ychwanegol i ethol Aelodau Cynulliad.

2.21 Dywedodd mwy na naw o bob 10 (93%) o'r bobl a holwyd yn ein hymchwil i farn y cyhoedd ei bod yn hawdd iawn neu'n weddol hawdd cwblhau'r papurau pleidleisio yn yr etholiadau hyn; dywedodd 68% o'r rhain ei bod yn hawdd iawn. Yn ogystal â hyn, roedd ymatebwyr wedi ei chael hi'n hawdd dod o hyd i'r ymgeisydd neu'r blaid roeddent am bleidleisio drosto/drosti ar y papurau pleidleisio, gydag 87% yn dweud bod hynny'n hawdd ar y papur pleidleisio etholaethol ac 88% yn dweud yr un peth am y papur pleidleisio rhanbarthol.

2.22 Cyfunwyd yr etholiadau hyn â'r etholiadau ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, a oedd yn golygu y byddai pleidleiswyr yng Nghymru yn wynebu tri phapur pleidleisio a dwy system etholiadol. Pan ofynnwyd iddynt pa mor ddryslyd oedd defnyddio'r ddwy system hyn, dywedodd 77% o bleidleiswyr nad oedd hynny'n ddryslyd, gyda 45% yn dweud 'Ddim yn ddryslyd o gwbl'.

Uniondeb etholiadol

2.23 Er nad oes hanes o dwyll etholiadol yng Nghymru, ceir canfyddiad o hyd ymhlith cyfran o'r cyhoedd bod twyll etholiadol yn broblem, gyda 25% o ymatebwyr yn credu bod rhyw fath o dwyll wedi digwydd yn etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Yn yr ymchwil ymhlith ymgeiswyr, roedd 10% yn credu bod rhyw fath o dwyll wedi digwydd yn etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ond dywedodd llawer ohonynt (78%) eu bod yn meddwl bod pleidleisio yn ddiogel rhag twyll; teimlai 13% nad yw'n ddiogel.

Ffigur 2.7: Faint o dwyll a ddigwyddodd yn etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn eich barn chi?



Etholiadau Mai 2016 – Arolwg ôl-etholiad. Ffynhonnell: BMG/Y Comisiwn Etholiadol.
C: Faint o dwyll etholiadol, os o gwbl, a ddigwyddodd yn etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 5 Mai yn eich barn chi?
Sylfaen: 701 (amhwysol).

2.24 Pan ofynnwyd iddynt pam roeddent yn credu bod twyll wedi digwydd, yr ymatebion mwyaf cyffredin oedd:

- 'Mae twyll hunaniaeth ar gynnydd' (56%);
- 'Mae pobl yn cofrestru pleidleiswyr eraill yn yr un cyfeiriad' (48%);
- 'Argraff gyffredinol bod twyll yn broblem' (41%)
- 'Nid yw'r bleidlais bost yn ddiogel' (41%);
- 'Mae pobl yn cofrestru fwy nag unwaith' (40%).

2.25 Wedi dweud hyn, mae 81% o'r farn bod pleidleisio yn gyffredinol yn ddiogel, gyda 25% yn dweud 'diogel iawn' – dywed 89% fod pleidleisio mewn gorsaf bleidleisio yn

ddiogel, o gymharu â 60% sy'n dweud bod pleidleisio drwy'r post yn ddiogel. Mae'r ffigurau hyn yn cyd-fynd ag arolygon blaenorol.

2.26 Yr ymateb gan ymgeiswyr oedd bod 78% o'r farn bod pleidleisio yn ‘Ddiogel’, gyda 30% yn dweud ei fod yn ‘Ddiogel iawn’ a 48% yn dweud bod pleidleisio yn ‘Ddiogel’.

Honiadau o dwyll etholiadol

2.27 Rhwng 1 Ionawr 2016 a 31 Gorffennaf 2016, hysbyswyd yr heddlu am 153 o achosion o dwyll etholiadol honedig ledled y DU. Roedd dau o'r rhain yn gysylltiedig ag etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

2.28 Roedd un achos yn ymwneud â throsedd mewn perthynas ag enwebu lle y rhoddwyd datganiad anwir ar y ffurflen enwebu, ac mae'r achos hwnnw'n dal yn destun ymchwiliad ar adeg ysgrifennu. Achos yn ymwneud ag ymgyrchu oedd y llall, lle yr honnir bod datganiad anwir wedi cael ei wneud am ymgeisydd arall. Cafodd yr achos hwn ei ddatrys gan Heddlu De Cymru fel ‘dim camau pellach – dim trosedd’.

2.29 Rydym yn disgwyl cyhoeddi'r data llawn ar gyfer achosion o dwyll etholiadol honedig a hysbyswyd yn ystod 2016 ledled y DU, gan gynnwys y canlyniadau lle y bônt ar gael, erbyn mis Mawrth 2017.

3 Gweinyddu'r etholiadau

3.1 Roedd cyfuno etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru â'r etholiad ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ar 5 Mai yn golygu cyfnod dwys o gynllunio a pharatoi i bawb a oedd yn rhan o'r gwaith o weinyddu'r etholiadau yng Nghymru er mwyn sicrhau'r lefel gywir o gydgysylltu a chysondeb. Ein casgliad yw bod yr heriau hyn wedi cael eu goresgyn a bod hyn wedi sicrhau bod yr etholiadau'n cael eu gweinyddu'n broffesiynol ac yn effeithlon a'u cynnal yn dda.

3.2 Yn ystod cyfnod yr etholiad, fodd bynnag, cafwyd sawl mater a effeithiodd ar rai pleidleiswyr, ymgeiswyr a phleidiau gwleidyddol. Amlinellir y materion hyn yn y bennod hon. Lle y bo'n briodol, rydym yn gwneud argymhellion ar gyfer etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn y dyfodol.

Deddfwriaeth

3.3 Mae'r rheolau ar gyfer cynnal etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi'u cynnwys mewn is-ddeddfwriaeth, sef maes y mae Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn gyfrifol amdano. Yn ymarferol, caiff yr offerynnau statudol eu drafftio gan Swyddfa'r Cabinet a Swyddfa Cymru ar ôl ymgynghori â'r Comisiwn Etholiadol.

3.4 Fel y nodwyd yn gynharach, yn dilyn Cydsyniad Brenhinol i Fil Cymru, bydd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gymhwysedd deddfwriaethol ar gyfer gweinyddu a rheoleiddio etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a llywodraeth leol.

3.5 Rydym yn parhau i argymell y dylai Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, sydd â chymhwysedd deddfwriaethol dros etholiadau yn y DU, reoli'r gwaith o ddatblygu a chymeradwyo deddfwriaeth mewn ffordd sy'n sicrhau ei bod yn glir o leiaf chwe mis cyn ei bod yn ofynnol ei rhoi ar waith neu gydymffurfio â hi. Er y gall datblygiadau annisgwyl neu amgylchiadau eithriadol godi lle y bydd deddfwriaeth yn ofynnol yn hwyrach na hyn, nid yw'n dderbyniol bod cynllunio gwael wedi achosi i ddeddfwriaeth gael ei chyhoeddi'n hwyr dros y blynyddoedd diwethaf.

3.6 Mae cyfnod o chwe mis yn sicrhau y gall y canllawiau a gyhoeddwn i Swyddogion Canlyniadau a'u staff fod yn amserol ac yn gywir. Mae hyn, yn ei dro, yn sicrhau bod y digwyddiad etholiadol yn cael adnoddau priodol ac yn cael ei gynllunio'n effeithiol a hefyd yn sicrhau bod modd cyflawni unrhyw waith angenrheidiol i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd.

3.7 Er gwaethaf argymhellion niferus i Lywodraeth y DU y dylai'r holl ffurflenni, hysbysiadau a phapurau pleidleisio Cymraeg gael eu llunio mewn modd amserol a chyson er mwyn cynorthwyo gweinyddwyr yng Nghymru, cyflwynwyd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) (Diwygio) 2016 yn Senedd y DU ar 17 Rhagfyr 2015, ychydig yn llai na phum mis yn unig cyn y diwrnod pleidleisio. Gall hyn arwain at oedi yn y gwaith o ddylunio a chynhyrchu deunydd ysgrifennu ar gyfer etholiadau, sef gwaith y mae angen iddo ddechrau ymhell cyn y diwrnod pleidleisio mewn sawl achos.

3.8 Ar ben hynny, gwnaed Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau Swyddogion Canlyniadau) 2016, sy'n nodi'r uchafsymiau sydd ar gael i Swyddogion Cyfrif ar gyfer adennill eu treuliau a'r ffioedd am eu gwasanaethau, ar 15 Mawrth 2016 a daeth i rym ar 16 Mawrth, lai na deufis cyn y diwrnod pleidleisio. Arweiniodd hyn at ansicrwydd ymhlith Swyddogion Canlyniadau a oedd yn cynllunio'r etholiadau am nad oedd modd iddynt wybod y symiau y gallent eu hawlio am weithgareddau penodol.

Ffurflenni Cymraeg

3.9 Ar 1 Mawrth, cyflwynwyd ail Orchymyn diwygio mewn perthynas â gweinyddu a chynnal etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2016.

3.10 Roedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) (Diwygio) (Rhif 2) yn cywiro rhai gwallau a oedd yn ymddangos yn fersiynau Cymraeg y ffurflenni a gyhoeddwyd yn y Gorchymyn gwreiddiol y soniwyd amdano eisoes, gan gynnwys cywiriadau i'r geiriad ar y papur pleidleisio rhanbarthol a newidiadau eraill er mwyn sicrhau cysondeb rhwng ffurflenni.

3.11 Er bod Swyddfa'r Cabinet wedi cywiro'r gwallau yn brydlon a chyflwyno'r gorchymyn diwygio cyn gynted â phosibl, arweiniodd bodolaeth dau orchymyn at fwy o ddryswch ymhlith gweinyddwyr etholiadol yng Nghymru.

3.12 Problem arall a achoswyd oedd bod llawer o'r ffurflenni rhagnodedig a oedd wedi'u cynnwys yn y gorchymyn gwreiddiol yn cynnwys gwallau (gan gynnwys gwallau sillafu a gwallau gramadegol) a gwestiynwyd gan Swyddogion Canlyniadau. Achosodd hyn broblemau i Swyddogion Canlyniadau am eu bod yn awyddus i'w ffurflenni fod yn gywir ond hefyd roedd yn rhaid iddynt ddilyn y geiriad rhagnodedig a oedd wedi'i gynnwys yn y gorchymyn.

Argymhelliad 1:
Er mwyn sicrhau mwy o gywirdeb, rydym yn argymell cynnal trafodaeth ehangach ar y ffordd fwyaf effeithiol o wirio rheoliadau drafft ar gyfer etholiadau yng Nghymru cyn iddynt gael eu cyflwyno, gan arwain at sefydlu grŵp defnyddwyr i ystyried unrhyw reoliadau Cymraeg yn ystod y cyfnod drafftio. Dylai'r grŵp gynnwys staff y Comisiwn Etholiadol a chynrychiolwyr cymuned etholiadol Cymru, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt.

Byddem hefyd yn ailbwysleisio y dylai'r holl ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â digwyddiadau etholiadol, gan gynnwys deddfwriaeth gyllido, fod yn barod o leiaf chwe mis cyn ei bod yn ofynnol ei rhoi ar waith neu gydymffurfio â hi - byddai hyn yn cynnwys ffurflenni rhagnodedig cywir ac amserol yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae unrhyw oedi cyn cyhoeddi ffurflenni Cymraeg yn rhoi timau etholiadau a phleidleiswyr yng Nghymru dan anfantais sylweddol a gall beri risg i'r etholiad dan sylw.

Etholiadau ar yr un diwrnod

3.13 Gall etholiadau a gynhelir ar yr un dyddiad naill ai gael eu cynnal ochr yn ochr â'i gilydd fel digwyddiadau ar wahân, neu gellir eu cyfuno os yw'r ddeddfwriaeth yn

caniatáu hynny. Mae hyn yn galluogi Swyddogion Canlyniadau i gyfuno rhai elfennau sy'n gyffredin i'r ddau etholiad er mwyn symleiddio'r broses i bleidleiswyr. Er enghraifft, gall Swyddogion Canlyniadau benderfynu cyfuno'r broses o anfon pecynnau pleidleisio drwy'r post ar gyfer yr etholiadau a gynhelir ar yr un diwrnod yn hytrach nag anfon pecynnau ar wahân ar gyfer y naill etholiad a'r llall.

3.14 Roedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) (Diwygio) 2016 yn darparu ar gyfer cyfuno etholiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ag etholiad ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu pan gynhelir yr etholiadau ar yr un diwrnod. Roedd y Gorchymyn yn dynodi'r Swyddog Canlyniadau arweiniol ar gyfer yr etholiadau cyfunol, yn sicrhau y byddai pleidleiswyr yn bwrw eu pleidlais yn yr un orsaf bleidleisio ar gyfer pob etholiad ac yn sicrhau bod papur pleidleisio lliw gwahanol yn cael ei ddefnyddio ar gyfer pob etholiad. Hefyd, gallai Swyddogion Canlyniadau ddosbarthu un cerdyn pleidleisio i etholwyr ar gyfer yr holl etholiadau, a dosbarthu un pecyn pleidleisio drwy'r post i bleidleiswyr gyda'r tri phapur pleidleisio ynddo, yn hytrach na phecyn ar wahân ar gyfer pob etholiad.

3.15 Roedd y Gorchymyn hefyd yn cynnwys darpariaeth, pan gaiff yr etholiadau ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a Chynulliad Cenedlaethol Cymru eu cyfuno, mai etholaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r ardaloedd pleidleisio at ddibenion yr etholiadau ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yng Nghymru, yn hytrach nag ardaloedd awdurdod lleol. Roedd hyn yn sicrhau bod y ddau etholiad yn cael eu gweinyddu yn y fan a'r lle gan ddefnyddio'r un ardaloedd pleidleisio (h.y. etholaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru) ac y byddai'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol yn gyfrifol am gynnal y ddau etholiad yn ei ardal ddynodedig.

3.16 Dywedodd gweinyddwyr etholiadol mewn nifer o awdurdodau fod cyflwyno'r Gorchymyn cyfuno yn hwyr wedi gwneud y gwaith o drefnu a chwblhau tasgau yn anodd ac wedi rhoi pwysau ychwanegol ar brosesau argraffu a chreu pecynnau pleidleisio drwy'r post.

3.17 Hefyd, cynhaliwyd is-etholiad Seneddol y DU yn etholaeth seneddol Ogwr ar 5 Mai, ond nid oedd unrhyw ddarpariaeth ddeddfwriaethol ar gyfer cyfuno is-etholiad Seneddol y DU â'r etholiadau ar gyfer y Cynulliad a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu. Yn ymarferol, golygai hyn fod pleidleiswyr yn Ogwr yn cael papur pleidleisio a cherdyn pleidleisio ychwanegol, cafodd pleidleiswyr post becyn pleidleisio drwy'r post ar wahân ac aeth pleidleiswyr mewn gorsafoedd pleidleisio i ddwy orsaf bleidleisio o fewn yr un adeilad. Er bod hyn wedi rhoi pwysau ychwanegol ar y gwaith o weinyddu'r etholiad, golygai'r cynllunio a chyfathrebu effeithiol bod pob etholiad yn yr etholaeth hon wedi cael eu cynnal yn dda heb unrhyw gwynion.

Papur pleidleisio rhanbarthol

3.18 Hyd at etholiad cyffredinol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2007, ac yn gynnwys yr etholiad hwnnw, roedd y papur pleidleisio rhanbarthol yn cynnwys enwau'r pleidiau a oedd yn ymladd yr etholiad rhanbarthol, yn ogystal ag enwau'r ymgeiswyr ar bob rhestr plaid. Mae gan bob plaid hawl i enwebu hyd at 12 o ymgeiswyr.

3.19 Yn ymarferol, golygai hyn fod maint y papur pleidleisio yn achosi problemau i bleidleiswyr mewn rhai rhanbarthau etholiadol. Yn 2007, enwebwyd ymgeiswyr gan

hyd at 13 o bleidiau. O ganlyniad i hyn, roedd y papurau pleidleisio yn hir iawn ac roedd pleidleiswyr yn ei chael yn anodd eu cwblhau a'u cyflwyno, naill ai mewn gorsafoedd pleidleisio neu drwy'r post. Mewn prosesau cyfrif etholiadol, roedd y papurau pleidleisio mawr yn lletchwith i staff cyfrif eu hagor, eu gosod allan yn wastad a'u trin a'u trafod, gan arafu'r broses gyfrif.

3.20 Oherwydd yr anawsterau hyn, ac yn sgil barn a gafwyd gan randdeiliaid ar opsiynau ar gyfer newid, gwnaeth Ysgrifennydd Gwladol Cymru ddiwygio'r ddeddfwriaeth fel nad oedd enwau ymgeiswyr yn cael eu cynnwys ar bapurau pleidleisio rhanbarthol ar gyfer etholiadau'r Cynulliad yn 2011.

3.21 Dim ond enwau'r pleidiau gwleidyddol a oedd wedi enwebu ymgeiswyr ac unrhyw ymgeiswyr annibynnol a oedd yn sefyll a oedd wedi'u cynnwys ar y papur pleidleisio rhanbarthol a ddefnyddiwyd yn 2011. Roedd y ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i Swyddogion Canlyniadau arddangos rhestr o enwau ymgeiswyr plaid mewn gorsafoedd pleidleisio.

3.22 Achosodd y penderfyniad hwn rai problemau; nid oedd y wybodaeth ofynnol a arddangoswyd yn gyson ac roedd pleidleiswyr post yn cwyno nad oeddent yn gallu cael gafael ar restr o ymgeiswyr plaid rhanbarthol yn eu pecynnau pleidleisio drwy'r post. Fodd bynnag, ar ôl lleihau maint y papur pleidleisio, roedd yn haws gweinyddu'r etholiad ac, ar y cyfan, roedd y papur pleidleisio rhanbarthol yn haws i bleidleiswyr ei ddefnyddio.

3.23 Yn ein hadroddiad statudol ar etholiadau 2011 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, gwnaethom ymrwymo i ailystyried y papur pleidleisio rhanbarthol cyn yr etholiad cyffredinol nesaf i Gymru. Yn 2014 gwnaethom gyhoeddi papur ymgynghori yn nodi'r gwahanol opsiynau a oedd ar gael ac yn gwahodd sylwadau gan bawb oedd â diddordeb, gan gynnwys pleidleiswyr.

3.24 Ym mis Rhagfyr 2014, yn seiliedig ar ganfyddiadau'r ymgynghoriad hwn, gwnaeth y Comisiwn gyfres o argymhellion, a'r prif un oedd na ddylid rhoi enwau ymgeiswyr yn ôl ar y papur pleidleisio rhanbarthol.

3.25 Gwnaeth Ysgrifennydd Gwladol Cymru ystyried yr argymhellion hyn ond penderfynodd ei bod yn iawn, yn ei farn ef, i enwau ymgeiswyr gael eu cynnwys ar y papur pleidleisio a chadarnhawyd y penderfyniad hwn yng Ngorchymyn 2015.

3.26 Yn ymarferol, oherwydd y penderfyniad i gynnwys enwau ymgeiswyr (hyd at 12 mewn rhai achosion), cynyddodd maint y papur pleidleisio ym mis Mai 2016. Unwaith eto, achosodd hyn broblemau i rai pleidleiswyr a oedd o'r farn bod y papurau pleidleisio yn lletchwith i'w cwblhau ac, yn achos pleidleiswyr post, yn anodd i'w plygu a'u rhoi yn y pecynnau pleidleisio drwy'r post.

3.27 Yn y broses gyfrif, roedd y papurau pleidleisio yn drafferthus i staff cyfrif eu hagor a'u gosod allan yn wastad, gan arafu'r broses gyfrif. Roedd rhai pleidleiswyr hefyd wedi drysu ynghylch pam roedd gan rai pleidiau fwy o ymgeiswyr ar y papur pleidleisio rhanbarthol na phleidiau eraill.

3.28 Yn sgil y cwestiynau a'r ymholiadau a gafodd y Comisiwn gan weinyddwyr etholiadol a phleidleiswyr yn ystod y cyfnod cyn yr etholiadau, mae'r Comisiwn yn dal i fod o'r farn, fel y nodwyd yn 2014[4] y dylai'r Gorchymyn statudol ar gyfer etholiadau 2021 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ddarparu ar gyfer papur pleidleisio rhanbarthol nad yw'n cynnwys enwau ymgeiswyr. Dylai'r rheolau perthnasol hefyd nodi y dylai copi mawr o'r rhestr o ymgeiswyr rhanbarthol gael ei arddangos ym mhob gorsaf bleidleisio ac y dylai rhestr debyg gael ei rhoi i bleidleiswyr post.

Cynllunio

Grŵp Cyflawni Cymru

3.29 Oherwydd natur gymhleth yr etholiadau cyfunol, roedd angen cynllunio'n ofalus ar gam cynnar er mwyn sicrhau bod yr etholiadau hollbwysig hyn yn cael eu cynnal yn dda.

3.30 Yn 2011, daeth amseriad y broses gyfrif yn fater dadleuol pan ddaeth i'r amlwg y byddai Swyddogion Canlyniadau yng Nghymru yn cyfrif pleidleisiau ar wahanol amseroedd mewn gwahanol ranbarthau. Yn 2012, gwnaethom argymell y dylid defnyddio fforymau cynllunio cenedlaethol sydd eisoes yn bodoli i geisio barn ar amseriad prosesau cyfrif etholiadol ac mai'r drefn y dylid ei dilyn yn ddiofyn yw bod Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol a Swyddogion Canlyniadau ym mhob un o bum rhanbarth etholiadol y Cynulliad yn cynllunio ar gyfer dechrau cyfrif pleidleisiau ar yr un pryd.

3.31 Er mwyn helpu i gyflawni hyn, ac er mwyn edrych ar faterion ehangach yn ymwneud â chynllunio, sefydlodd y Comisiwn Grŵp Cyflawni Cymru, a oedd yn cynnwys yr aelodau canlynol:

- Y Comisiwn Etholiadol
- Uwch Swyddogion Canlyniadau (Rhanbarthol)
- Llywodraeth Cymru
- Llywodraeth y DU
- AEA Cymru
- Cynulliad Cenedlaethol Cymru

3.32 Prif nod y grŵp oedd trafod y dulliau mwyaf effeithiol o gynllunio etholiadau a rhoi llwyfan i Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol allu cytuno ar ddull gweithredu cyson mewn perthynas â materion cenedlaethol (Cymreig) am y tro cyntaf.

Argymhelliad 2:
Dylai Grŵp Cyflawni Cymru parhaol barhau i gwrdd er mwyn gwella a symleiddio'r gwaith o gynllunio ar gyfer digwyddiadau etholiadol yn y dyfodol, a rhoi cyfleoedd i drafod meysydd allweddol sy'n peri pryder cyffredin. Bydd y Comisiwn yn drafftio cylch

[4] Enwau ymgeiswyr ar y papur pleidleisio (tudalen 13)
http://www.electoralcommission.org.uk/__data/assets/pdf_file/0007/179548/Regional-Ballot-Paper-NAW-Papur-Pleidleisio-Rhanbarthol-CCC.pdf

gorchwyl ac yn ceisio barn yr holl bartneriaid allweddol, a bydd y gwaith hwn yn dechrau erbyn diwedd 2016.

3.33 Cytunodd Grŵp Cyflawni Cymru y dylai fod dull gweithredu cyson ledled Cymru o ran amseriad y prosesau cyfrif etholiadol. Daethpwyd i gytundeb y byddai'r broses o ddilysu pleidleisiau mewn etholiadau ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn cael ei chynnal ar ddiwedd y cyfnod pleidleisio ac y byddai'r broses o gyfrif pleidleisiau a fwriwyd yn yr etholiadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn cael ei chynnal yn syth ar ôl y broses ddilysu.

3.34 O ran cyfrif y pleidleisiau yn yr etholiadau ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, cytunwyd y ceisir barn rhanddeiliaid ar gynnig i gyfrif ar ddydd Sul. Y rhesymau dros hyn oedd:

- sicrhau y byddai aelodau allweddol o staff wedi dadflino ar ôl gweithio dros nos ar broses gyfrif yr etholiad cyffredinol i Gymru;
- nad yw llawer o leoliadau cyfrif ar gael yn hawdd i Swyddogion Canlyniadau eu defnyddio ar ddydd Sadwrn oherwydd gweithgareddau sydd eisoes wedi'u cynllunio.

3.35 Cyhoeddwyd cynigion yn lleol yn ystod hydref 2015 a chadarnhawyd y dull gweithredu hwn ym mis Ionawr 2016 heb unrhyw wrthwynebiadau gan unrhyw un â diddordeb.

3.36 Ymhlith y materion eraill a drafodwyd gan y Grŵp Cyflawni roedd deddfwriaeth, paratoi ar gyfer etholiadau, canllawiau a hyfforddiant ac ymwybyddiaeth y cyhoedd.

Seminar

3.37 Ym mis Chwefror 2016, cynhaliodd y Comisiwn seminar genedlaethol a gwahoddwyd pob partner perthnasol sydd â diddordeb yn etholiadau mis Mai, gan gynnwys:

- Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol
- Swyddogion Canlyniadau Etholaethol
- Rheolwyr Gwasanaethau Etholiadol
- Panel Pleidiau Cynulliad Cymru
- Llywodraeth Cymru
- Llywodraeth y DU
- Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- Pwyntiau Cyswllt Unigol yr Heddlu

3.38 Roedd y seminar yn cynnwys sesiwn gan y Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol yn nodi'r prif heriau sy'n wynebu Swyddogion Canlyniadau Etholaethol wrth gynllunio ar gyfer yr etholiadau a'u cyflawni ac yn tynnu sylw at yr hyn y byddai angen iddynt ei ystyried er mwyn ymateb i'r heriau hyn. Cafwyd sesiynau hefyd ar gynllunio'r broses gyfrif, a gynhaliwyd gan AEA, gweithgarwch ymwybyddiaeth y cyhoedd y Comisiwn Etholiadol ac ymgyrch Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Canllawiau

3.39 Unwaith eto, gwnaethom gydweithio'n agos â'r Gweithgor Etholiadau, Refferenda a Chofrestru[5] er mwyn llunio canllawiau a phecyn cymorth ar gyfer holl etholiadau mis Mai 2016. Gwnaethom hefyd gyhoeddi canllawiau i bleidiau gwleidyddol, ymgeiswyr a'u hasiantiaid ac ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau.

3.40 Cyhoeddwyd y rhan fwyaf o'n canllawiau craidd erbyn diwedd mis Rhagfyr, a bydd y canllawiau ac adnoddau olaf ar gael erbyn dechrau mis Mawrth.

3.41 Er y rhoddwyd blaenoriaeth i gyhoeddi'r canllawiau er mwyn sicrhau y byddai gan Swyddogion Canlyniadau yr hyn roedd ei angen arnynt pan fyddai ei angen arnynt, yn anffodus ni fu modd i ni ddarparu ein holl gynnyrch yn llawn mor gynnar ag y byddem yn bwriadu fel arfer ar gyfer etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Roedd y set gymhleth o etholiadau a gynhaliwyd ledled y DU ym mis Mai 2016 a'r fframwaith deddfwriaethol cymhleth a thameidiog yn achosi heriau penodol i'r gwaith o lunio ein canllawiau ac adnoddau, gyda mwy na 500 o eitemau unigryw o gynnyrch wedi'u cyhoeddi i gefnogi'r amrywiol etholiadau a gynhaliwyd ar 5 Mai. Rydym yn cydnabod bod rhai deunyddiau yn hwyr a byddwn yn ystyried hyn wrth gynllunio gweithgareddau ar gyfer digwyddiadau etholiadol yn y dyfodol.

3.42 Oherwydd natur gymhleth y fframwaith cyfreithiol, rydym hefyd yn croesawu argymhelliad Comisiwn y Gyfraith y dylai'r deddfau sy'n llywodraethu etholiadau gael eu had-drefnu'n un fframwaith deddfwriaethol cyson sy'n llywodraethu pob etholiad.

3.43 Bydd hyn yn fuddiol i bawb sy'n ymwneud ag etholiadau gan y bydd yn gwneud y gyfraith yn haws i'w deall a'i defnyddio.

3.44 Yn Etholiad Cyffredinol Senedd y DU yn 2015, gwnaeth y cyfryngau, pleidiau gwleidyddol a sylwebyddion yng Nghymru dynnu sylw at nifer o anghysondebau yn y ffordd y cafodd y datganiad dwyieithog ei wneud ym mhob proses gyfrif. Rhoddodd Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg hefyd sylw i'r mater yn ei hadroddiad ôl-etholiad.

3.45 Gwnaethom lunio adnodd gan ddefnyddio'r arfer gorau roeddem wedi'i nodi gan awdurdodau lleol a chafodd hwn ei ddosbarthu i Swyddogion Canlyniadau. Roedd yn cynnwys sgript yr awgrymir y gall Swyddogion Canlyniadau Etholaethol ei defnyddio fel sail ar gyfer eu cyhoeddiadau ar wahanol gamau yn ystod y broses gyfrif yn ogystal â sgript enghreifftiol yr anogwyd Swyddogion Canlyniadau i'w defnyddio i ddatgan y canlyniad.

---

[5] Mae'r Gweithgor Etholiadau, Refferenda a Chofrestru (ERRWG) yn rhoi cyngor a chymorth i'r Comisiwn ar lunio a darparu canllawiau ac adnoddau ar gyfer etholiadau a chofrestru etholiadol ac yn cyfleu anghenion staff cofrestru etholiadol a staff etholiadau, gan sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu hystyried wrth ddatblygu canllawiau ac adnoddau. Ymhlith yr aelodau mae rhywun a benodwyd gan bob Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol ym Mhrydain Fawr, rhywun a benodwyd gan gynrychiolydd rhanbarthol pob Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu a rhywun a benodwyd gan Swyddog Canlyniadau Llundain Fwyaf. Caiff Swyddfa'r Cabinet, y Swyddfa Gartref, Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol a Chymdeithas Aseswyr yr Alban eu cynrychioli yn y grŵp hefyd.

3.46 Ein prif nod oedd sicrhau bod y datganiad yn cael ei wneud mewn ffordd gyson ledled Cymru gan ystyried natur yr etholiad a'r sylw gan y cyfryngau, ac y dylai'r datganiad Cymraeg gael ei wneud gan siaradwr Cymraeg rhugl bob amser.

Swyddogion Canlyniadau

3.47 Er gwaethaf yr ansicrwydd ynghylch rhai agweddau ar y ddeddfwriaeth, gwnaethom gyhoeddi canllawiau ac adnoddau i Swyddogion Canlyniadau, un rhan ar y tro o fis Hydref 2015 ymlaen, er mwyn helpu Swyddogion Canlyniadau a gweinyddwyr i gynllunio ar gyfer yr etholiadau. Cyflwynwyd y ddeddfwriaeth berthnasol ddiwedd mis Rhagfyr a darparwyd y rhan fwyaf o'r pecyn canllawiau craidd i Swyddogion Canlyniadau erbyn diwedd y mis hwnnw, gyda'r holl ganllawiau ac adnoddau ategol mewn perthynas â gweinyddu'r etholiad ar gael ar wefan y Comisiwn erbyn mis Mawrth 2016.

Ymgeiswyr ac asiantiaid

3.48 Cyhoeddwyd rhannau cyntaf y canllawiau a'r adnoddau perthnasol ddechrau mis Hydref er mwyn helpu ymgeiswyr posibl i wybod p'un a oedd ganddynt hawl i sefyll. Cyhoeddwyd y rhan fwyaf o'r canllawiau o ran y broses enwebiadau ddiwedd mis Rhagfyr ar ôl i'r ddeddfwriaeth berthnasol gael ei chyflwyno, a chyhoeddwyd y rhannau terfynol ym mis Ionawr 2016.

Monitro perfformiad

3.49 Rydym yn pennu safonau perfformiad ar gyfer Swyddogion Canlyniadau yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, yn eu monitro ac yn cyflwyno adroddiadau arnynt. [6] Bwriad ein fframwaith safonau perfformiad yw helpu Swyddogion Canlyniadau i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel yn gyson i bleidleiswyr a'r rhai sy'n sefyll etholiad. [7]

3.50 Mae'r fframwaith yn adlewyrchu'r hyn rydym ni a Bwrdd Cynghori Etholiadol y DU (ECAB)[8] yn cytuno y bydd angen i Swyddogion Canlyniadau ei wneud er mwyn paratoi ar gyfer etholiadau a chynnal etholiadau yn dda. Mae'r safonau yn canolbwyntio ar ganlyniadau allweddol o safbwynt y pleidleiswyr a'r rheini sydd am sefyll etholiad ac, yn benodol, a yw Swyddogion Canlyniadau yn cymryd y camau angenrheidiol i gyflawni'r amcanion canlynol:

---

[6] Nid yw'r fframwaith safonau perfformiad yn ymestyn i Ogledd Iwerddon ar hyn o bryd, ond mae Deddf (Darpariaethau Amrywiol) Gogledd Iwerddon 2014 yn cynnwys darpariaeth iddo wneud hynny. Rydym yn cydweithio â'r Prif Swyddog Etholiadol ar gyflwyno safonau perfformiad ar gyfer cofrestru etholiadol a digwyddiadau etholiadol.

[7] Mae rhagor o wybodaeth am ein fframwaith safonau perfformiad i Swyddogion Canlyniadau wedi'i chyhoeddi ar ein gwefan. Y Comisiwn Etholiadol, *Safonau Perfformiad*, http://www.electoralcommission.org.uk/cymru/find-information-by-subject/performance-standards, cyrchwyd ar 10 Gorffennaf 2010.

[8] Grŵp cynghori a gafodd ei alw ynghyd gan y Comisiwn Etholiadol a Swyddfa'r Cabinet yw ECAB, ac mae'n cynnwys uwch Swyddogion Cofrestru Etholiadol ac uwch Swyddogion Canlyniadau, a chaiff ei fynychu hefyd gan gynrychiolwyr o Gymdeithas Prif Swyddogion Gweithredol Awdurdodau Lleol (SOLACE) a Chymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol (AEA). Mae ECAB yn rhoi cyngor strategol i'r Comisiwn a Swyddfa'r Cabinet am etholiadau, refferenda a chofrestru etholiadol.

- Gall pobl fwrw eu pleidlais yn hawdd ac maent yn gwybod y caiff eu pleidlais ei chyfrif yn y ffordd a fwriadwyd.
- Mae'n hawdd i bobl sydd am sefyll etholiad gael gwybod sut i wneud hynny, beth yw'r rheolau, a beth mae'n rhaid iddynt ei wneud i gydymffurfio â'r rheolau, a gallant fod yn hyderus yn y ffordd y caiff y broses a'r canlyniad eu rheoli.

3.51 Mae'r safonau yn cwmpasu'r ystod o weithgareddau a wneir gan Swyddogion Canlyniadau wrth baratoi ar gyfer etholiadau a chynnal etholiadau yn dda, gan gynnwys, er enghraifft, gosod a staffio'r gorsafoedd pleidleisio a chyflawni prosesau dilysu a chyfrif amserol a chywir. Nid yw fframwaith safonau perfformiad y Swyddog Canlyniadau yn gysylltiedig â gwaith Swyddogion Cofrestru Etholiadol, a gwmpesir gan fframwaith ar wahân.

3.52 Mae'r fframwaith hefyd yn cynnwys safon sy'n ymdrin yn benodol â rôl deiliaid swyddi statudol sydd â phŵer cyfarwyddo sy'n gysylltiedig â'r gwaith o gydgysylltu a rheoli'r etholiad.

3.53 Dewiswyd sampl sy'n seiliedig ar risg o Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol a Swyddogion Canlyniadau Etholaethol ar gyfer eu monitro'n fanwl, gan ystyried ffactorau megis profiad y Swyddog Canlyniadau ac unrhyw faterion blaenorol.

3.54 Mewn nifer fach o achosion yn y cyfnod cyn y diwrnod pleidleisio, gwnaethom argymell mân welliannau i gynlluniau Swyddogion Canlyniadau (er enghraifft, mewn perthynas â'r gwaith cyffredinol o gynllunio ar gyfer cyflawni'r etholiadau a threfniadau ar gyfer dilysu a chyfrif pleidleisiau), a lle y nodwyd materion yn ystod y gwaith monitro rydym wedi cydweithio â Swyddogion Canlyniadau i'w rheoli.

Lliw'r papur pleidleisio

3.55 Nid yw lliw'r papurau pleidleisio ar gyfer etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi'i ragnodi mewn rheoliadau a'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol/Swyddog Canlyniadau Etholaethol sy'n penderfynu pa liwiau i'w defnyddio. Yn yr Etholiad ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu sy'n penderfynu ar liw'r papur pleidleisio. Fodd bynnag, dylai'r Swyddog Canlyniadau ystyried yn ofalus y goblygiadau ymarferol a'r risgiau sydd ynghlwm wrth benderfynu ar y lliw ac effaith y penderfyniad ar bleidleiswyr, ymgeiswyr ac arsylwyr. Oherwydd natur gyfunol yr etholiadau, roedd hon yn ystyriaeth arbennig o bwysig.

3.56 Yn yr Alban, argymhellodd y Bwrdd Rheoli Etholiadol y dylai'r papurau pleidleisio ar gyfer etholiadau Senedd yr Alban ym mis Mai 2016, a gynhaliwyd gan ddefnyddio'r un system etholiadol, fod yn felynbinc (rhanbarthol) a lliw lelog (etholaeth). Gwnaethant hefyd argymell y dylai'r lliwiau gyd-fynd â lliwiau Pantone penodol, gan ddeall y gallai dulliau argraffu amrywio rhwng cyflenwyr.

3.57 Yng Nghymru, yn unol ag arferion sefydledig, gwnaeth pob Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol/ Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu benderfyniad ar liw'r papur pleidleisio yn yr etholiad rhanbarthol/yr Etholiad ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu. Yn y tri rhanbarth yn Ne Cymru a rhanbarth Gogledd Cymru, gwyn oedd lliw'r papur pleidleisio. Yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru, roedd y papur pleidleisio rhanbarthol yn llwyd, lliw lelog neu felynddu (am fod angen ailddosbarthu pecynnau

pleidleisio drwy'r post yn y rhanbarth hwn). Cafodd Swyddogion Canlyniadau Etholaethol ddewis unrhyw liw arall ar gyfer papur pleidleisio'r etholiad etholaethol.

3.58 Effeithiwyd yn benodol ar awdurdod lleol Merthyr Tudful, sydd wedi'i rannu rhwng Ardaloedd Heddlu Gwent a De Cymru. Mae etholaeth Merthyr Tudful hefyd yn cynnwys rhan o ardal awdurdod lleol Caerffili.

3.59 Felly, cafwyd trafodaeth ynghylch lliw'r papurau pleidleisio mewn amryw o ffyrdd – cyfarfodydd, galwadau ffôn a negeseuon e-bost – ond o ganlyniad i hyn roedd gweinyddwyr etholiadol yn ei chael yn anodd cadw golwg ar benderfyniadau.

3.60 Mae gwerth i'r dull gweithredu a ddefnyddiwyd yn yr Alban ac nid ydym yn gweld unrhyw reswm pam na ellir gwneud penderfyniad o'r fath mewn etholiadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn y dyfodol.

Argymhelliad 3:
Ar gyfer etholiadau yn y dyfodol, dylai Grŵp Cyflawni Cymru ystyried lliw'r papurau pleidleisio i'w defnyddio ar gyfer pob etholiad a gwneud argymhelliad priodol, gan roi eglurder i Swyddogion Canlyniadau a'u staff ar gam cynnar.

Cynnal etholiadau

Ailddosbarthu pecynnau pleidleisio drwy'r post mewn rhannau o ranbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru

3.61 Cawsom ein hysbysu ar 19 Ebrill 2016 bod gwall yn y papur pleidleisio rhanbarthol a ddosbarthwyd i oddeutu 30,000 o bleidleiswyr post yn Sir Benfro a Cheredigion a oedd yn cynnwys cyfarwyddiadau anghywir i bleidleiswyr.

3.62 Cafodd y papurau pleidleisio eu hargraffu gan uned argraffu Cyngor Sir Penfro ar gyfer ardaloedd etholaethol Preseli Penfro, Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro, a Cheredigion. Dylai'r papur pleidleisio fod wedi dweud “pleidleisiwch unwaith yn unig” ond yn hytrach na hynny roedd yn dweud “pleidleisiwch dros un ymgeisydd yn unig”.

3.63 Cyn gynted ag y daeth y gwall i'r amlwg, cysylltodd Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru â ni. Barn y Comisiwn yw y gallai cynnwys cyfarwyddyd anghywir fod wedi camarwain y pleidleiswyr o bosibl o ran effaith eu pleidlais ac na fyddai hyn wedi cydymffurfio â'r cyfarwyddyd perthnasol ar gyfer argraffu ac felly byddai risg y gallai'r etholiad gael ei herio.

3.64 Mae gan Swyddogion Canlyniadau Etholaethol y pŵer i gymryd y cyfryw gamau ag sy'n briodol yn eu barn hwy i unioni unrhyw wallau gweithdrefnol sy'n codi mewn cysylltiad ag unrhyw un o swyddogaethau'r etholiadau ac nad ydynt yn unol â'r rheolau. Ar y sail honno, roeddem yn cytuno â'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol y dylid ailargraffu'r papur pleidleisio rhanbarthol a'i ailddosbarthu mewn lliw gwahanol ynghyd â chyfarwyddiadau ar wahân i bleidleiswyr a llythyr yn egluro'r sefyllfa i bleidleiswyr yr effeithiwyd arnynt.

3.65 Gwnaethom hefyd gynghori y dylid dosbarthu datganiad pleidleisio drwy'r post newydd gyda'r papurau pleidleisio rhanbarthol newydd fel y gellid dychwelyd y papurau

pleidleisio etholaethol a'r papurau pleidleisio ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu gyda'r datganiad pleidleisio drwy'r post gwreiddiol neu un newydd.

3.66 Rhoddodd y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol wybod i Swyddogion Canlyniadau Etholaethol y dylid ailddosbarthu'r papurau pleidleisio rhanbarthol yn llawn yn yr ardaloedd yr effeithiwyd arnynt yn Sir Benfro a Cheredigion. Hefyd, sicrhaodd y ddau awdurdod fod y cyhoedd yn ymwybodol o'r gwall drwy'r dulliau canlynol:

- Gwefan y cyngor, cyfryngau cymdeithasol a chyhoeddiadau ar y radio;
- Llythyr at y pleidleiswyr hynny yr effeithiodd y mater arnynt;
- Llythyr at yr holl bleidiau gwleidyddol ac asiantiaid yr effeithiodd y mater arnynt.

3.67 Roedd angen ymdrech sylweddol gan bob awdurdod dan sylw i roi'r mesurau unioni ar waith ac, yn amlwg, aed i gostau ychwanegol yn sgil y gwall.

3.68 Roedd y camau gweithredu a gymerwyd gan y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol a phob Swyddog Canlyniadau Etholaethol ar ôl i'r gwall gael ei ddarganfod yn amserol, yn gadarn ac wedi'u rheoli'n dda. Rydym yn ymwybodol bod arferion rheoli prosiectau yng Nghyngor Sir Penfro yn cael eu datblygu a'u mireinio ymhellach o ganlyniad i'r digwyddiad hwn. Hefyd, mae'r Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yn cynnal adolygiad llawn o'r mater.

Argymhelliad 4:
Mae gweithio ar lefel ranbarthol yn gosod her sylweddol i Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol, Swyddogion Canlyniadau Etholaethol a gweinyddwyr etholiadol ac mae'n bwysig sicrhau bod rhwydweithiau a systemau cyfathrebu cadarn ar waith er mwyn hwyluso'r broses gynllunio.

Ar gyfer etholiadau rhanbarthol yn y dyfodol, byddwn yn hwyluso trafodaeth, drwy Grŵp Cyflawni Cymru, ynghylch sut y gallai Swyddogion Canlyniadau Etholaethol a gweinyddwyr etholiadol weithio ar draws awdurdodau er mwyn gwella prosesau gwneud penderfyniadau ac effeithiolrwydd gweithredol.

Asesu safonau perfformiad

3.69 Ar gyfer pob set o etholiadau, rydym yn pennu safonau perfformiad ar gyfer Swyddogion Canlyniadau yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, yn eu monitro ac yn cyflwyno adroddiadau arnynt. Pan gododd materion mewn perthynas â gweinyddu'r etholiadau, yn gyntaf gwnaethom gydweithio'n agos â'r Swyddogion Canlyniadau yr effeithiwyd arnynt er mwyn datrys y mater gan effeithio cyn lleied â phosibl ar bleidleiswyr a'r rhai a oedd yn sefyll etholiad. Wrth asesu perfformiad y Swyddogion Canlyniadau dan sylw, gwnaethom y canlynol:

- ystyried manylion y mater;
- ystyried p'un a oedd gan y Swyddog Canlyniadau y prosesau angenrheidiol ar waith er mwyn gallu cynnal etholiadau yn dda;
- ystyried p'un a oedd y mater yn ganlyniad i'r prosesau a ddilynodd y Swyddog canlyniadau, neu'n fater a oedd y tu hwnt i reolaeth y Swyddog Canlyniadau ac na ellid ei ragweld yn rhesymol;

- ystyried pa gamau unioni a gymerwyd gan y Swyddog Canlyniadau ac amseroldeb y camau hyn;
- ystyried effaith y mater ar bleidleiswyr a'r rhai a oedd yn sefyll etholiad.

3.70 Ar ôl i ni roi cyngor a chanllawiau er mwyn helpu Swyddogion Canlyniadau i reoli materion sy'n codi, gwnaethom gysylltu â Swyddogion Canlyniadau i gadarnhau ein dealltwriaeth o'r mater ac unrhyw gamau unioni a gymerwyd. Gwnaethom hefyd wahodd Swyddogion Canlyniadau i roi unrhyw wybodaeth ychwanegol berthnasol i ni yn ogystal â'u hasesiad o effaith y mater ar bleidleiswyr a'r rhai a oedd yn sefyll etholiad.

3.71 Byddwn yn cadarnhau a chyhoeddi penderfyniad terfynol unwaith i'r broses asesu llawn gael ei chwblhau.

Adrodd tryloyw o gostau etholiadau

3.72 Yn Hydref 2014, ysgrifennom at Lywodraeth Cymru yn gofyn bod y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol ar gyfer cyllido etholiadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn ystyried cyhoeddi gwybodaeth glir ar gostau pleidleisiau'r dyfodol. Roedd hyn yn seiliedig ar argymhellion a wnaed o ran tryloywder costau etholiadau a refferenda oedd yn gynwysedig yn adroddiad y Comisiwn ar gostau refferendwm Mai 2011 ar system Bleidleisio Senedd y DU[9].

3.73 Ymatebodd Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru i'r Comisiwn ar 14 Tachwedd yn cytuno byddai'r dadansoddiad hwn o gostau etholiadau'r dyfodol yn cael eu gwneud.

3.74 Edrychwn ymlaen at weithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y gwaith hwn yn cael ei wneud yn amserol.

[9] http://www.electoralcommission.org.uk/__data/assets/pdf_file/0009/153000/Costs-of-UK-May-2011-UKPVS-referendum.pdf

4 Ymgeiswyr ac ymgyrchwyr

4.1 Yn y bennod hon, byddwn yn ystyried profiadau'r bobl hynny a fu'n ymgyrchu yn yr etholiadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

4.2 Ceir fframwaith o reolau sy'n cwmpasu gwariant, rhoddion a benthyciadau ymgyrchwyr yn y cyfnod cyn etholiadau, a nodir yn Neddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA) ac a reoleiddir gennym. Rydym hefyd yn gwneud sylwadau ar y ffordd y gweithredir y rheolau i ymgeiswyr ac ymgyrchwyr, a nodir yn Neddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, a Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007, a oedd yn gymwys i etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2016. Mae gennym ddyletswydd i fonitro cydymffurfiaeth â'r rheolau i ymgeiswyr, a chymryd pob cam rhesymol i sicrhau cydymffurfiaeth â nhw, ond mater i'r heddlu yw unrhyw achosion o dorri Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983.

4.3 Roedd y fframwaith rheoleiddio yn gymwys i ymgyrchwyr yn ystod y 'cyfnodau a reoleiddir' canlynol, pan oedd terfynau gwario a gofynion adrodd ar gyfer etholiad 2016 yn gymwys:

- Pleidiau gwleidyddol: 5 Ionawr i Mai 2016
- Ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau (o dan PPERA): 5 Ionawr i Mai 2016
- Ymgeiswyr: 7 Ebrill i 5 Mai 2016

4.4 Gallwch weld crynodeb o ymgeiswyr ac ymgyrchwyr a safodd yn etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn adran "Crynodeb o ffeithiau allweddol ac argymhellion" yr adroddiad hwn ar dudalennau 3-4.

Deddfwriaeth

Anghymhwyso

4.5 Ym mis Medi 2015, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) 2015 a oedd yn rhestru rhai o'r swyddi y gwaherddir eu deiliaid rhag sefyll fel ymgeisydd yn yr etholiadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ac roedd y Gorchymyn hwn yn cyd-fynd â'r anghymwysiadau a oedd eisoes wedi'u nodi yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006.

4.6 Er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r darn pwysig hwn o ddeddfwriaeth, gwnaethom y canlynol:

- cyhoeddi dolen i'r ddeddfwriaeth ar ein gwefan;
- cyfeirio at y ddeddfwriaeth hon yn yr holl ganllawiau perthnasol ar gyfer etholiadau 2016;
- dosbarthu'r Gorchymyn yn uniongyrchol i bob plaid wleidyddol ar ein cofrestri, i weinyddwyr etholiadol ac i gydweithwyr yng Nghymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

4.7 Ym mis Chwefror 2016, gwnaethom gyhoeddi cyngor ar b'un a fyddai swydd Aelod o Senedd Ewrop (ASE), na chyfeiriwyd ati yng Ngorchymyn Anghymhwyso

2015, yn anghymhwyso unigolyn rhag sefyll fel ymgeisydd yn yr etholiadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a oedd ar droed.

4.8 Nodwyd mewn Penderfyniad gan Gyngor Ewrop na fydd swydd aelod o Senedd Ewrop yn gydnaws â swydd aelod o Senedd genedlaethol. Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn nodi, os yw unigolyn wedi'i anghymhwyso rhag bod yn AS, ei fod hefyd wedi'i anghymhwyso rhag bod yn Aelod Cynulliad. Felly, gan ystyried y ddwy gyfarwyddeb hyn ar y cyd, gwnaethom gynghori y byddai dal swydd ASE yn anghymhwyso unigolyn rhag sefyll yn etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a gwnaethom y farn hon yn gyhoeddus.

4.9 Fodd bynnag, ar ôl ymgynghori ymhellach â Chynulliad Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a'r deddfwrfeydd datganoledig perthnasol, ac ar ôl cael cyngor cyfreithiol gan gwnsler, gwnaethom ailystyried y farn hon a chynghori y dylai ASE allu sefyll yn etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

4.10 Os bydd swydd ASE yn berthnasol yn 2021, dylai'r Llywodraeth ar y pryd ystyried yn ofalus y cwestiwn ynghylch p'un a yw rhywun sy'n dal y swydd hon yn gymwys i sefyll fel ymgeisydd mewn etholiad cyffredinol i Gymru.

Dechrau ymgeisyddiaeth

4.11 Derbyniodd y Comisiwn Etholiadol nifer o ymholiadau yn y cyfnod cyn cyhoeddi'r hysbysiad etholiad, ynghylch pryd y bydd unigolyn yn dod yn ymgeisydd yn swyddogol, at ddibenion datgan gwariant ar ymgyrchoedd a reoleiddir.

4.12 Mae ein canllawiau yn datgan: "*Mae'r cyfnod a reoleiddir ar gyfer etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn dechrau ar y diwrnod ar ôl i chi ddod yn ymgeisydd yn swyddogol ac yn dod i ben ar y diwrnod pleidleisio, sef 5 Mai 2016. Y dyddiad cynharaf y gallwch ddod yn ymgeisydd yn swyddogol yw'r dyddiad y diddymir Cynulliad Cenedlaethol Cymru, sef 6 Ebrill 2016. Felly, mae'r cyfnod a reoleiddir yn dechrau ar 7 Ebrill 2016.”*

4.13 Fodd bynnag, cyhoeddwyd yr hysbysiad etholiad yng Nghymru rhwng 21 a 30 Mawrth 2016, a gallai ymgeiswyr gyflwyno eu papurau enwebu o'r diwrnod ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad etholiad ymlaen. Golygai hyn y byddai ymgeiswyr yn gallu gwario arian at ddibenion ymgyrchu o'r diwrnod ar ôl i'w papurau enwebu gael eu derbyn tan 7 Ebrill, ac ar yr amod eu bod yn defnyddio/dosbarthu unrhyw ddeunydd ymgyrchu a grëwyd cyn 7 Ebrill 2016, ni fyddai'n rhaid iddynt ddatgan y gwariant hwn, a gallai hyn fod wedi rhoi mantais annheg i rai ymgeiswyr. Hefyd, roedd yn ymddangos bod rhai awdurdodau lleol yng Nghymru wedi drysu ynghylch beth dylai'r dyddiad dechrau ymgeisyddiaeth swyddogol fod.

4.14 Y cyngor a roddwyd gennym i'r holl ymgeiswyr yn ystod sesiynau briffio oedd, "*os cewch eich enwebu cyn 6 Ebrill, dylech ddilyn y rheolau ar wariant a rhoddion ar gyfer y cyfnod hwn. Bydd yn rhaid i chi ddatgan pob rhodd dros £50 os caiff ei wario ar ddeunydd ymgyrchu a ddefnyddir yn ystod y cyfnod a reoleiddir, hyd yn oed os cafodd ei roi i chi cyn i'r cyfnod a reoleiddir ddechrau”.*

Argymhelliad 5:
Dylai'r Llywodraeth berthnasol sicrhau bod dyddiad cyhoeddi'r hysbysiad etholiad ar yr un diwrnod ag y diddymir y Cynulliad, er mwyn osgoi cyfnod o amser lle na chaiff gwariant ei reoleiddio.

Eithriadau ar gyfer costau sy'n amherthnasol i'r gweithgarwch ymgyrchu

4.15 Cyflwynodd Deddf Tryloywder Lobïo, Ymgyrchwyr Nad Ydynt yn Bleidiau a Gweinyddu Undebau Llafur 2014 nifer o eithriadau newydd i'r rheolau ar ymgyrchu rhai nad ydynt yn bleidiau a nodwyd yn PPERA, gan gynnwys: gwariant ar gyfieithu deunydd o Saesneg i'r Gymraeg ac fel arall; treuliau rhesymol y gellir eu priodoli i anabledd unigolyn; ac unrhyw orymdaith neu gyfarfod cyhoeddus lle y rhoddwyd hysbysiad ymlaen llaw o dan Ddeddf Gorymdeithiau Cyhoeddus (Gogledd Iwerddon) 1998. Gwnaethom gefnogi cyflwyno'r eithriadau hyn sydd ar gyfer costau sy'n amherthnasol i'r gweithgarwch ymgyrchu ac wedi'u bwriadu i hyrwyddo cynhwysiant.

4.16 Nid oes unrhyw eithriadau cyfatebol penodol ar gyfer costau sy'n gysylltiedig ag anabledd neu gostau cyfieithu Cymraeg/Saesneg yn y rheolau ar wariant pleidiau ac ymgeiswyr mewn etholiadau. Gan fod Senedd y DU wedi nodi ei bwriad yn glir y dylid eithrio costau o'r fath ar gyfer ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau, ni allwn weld unrhyw reswm amlwg pam na ddylid cyflwyno eithriadau cyfreithiol cyfatebol ar gyfer pleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr cyn gynted â phosibl.

Argymhelliad 6:
Dylai Llywodraethau sydd â chymhwysedd deddfwriaethol dros etholiadau yn y DU ddiwygio'r diffiniadau o wariant ymgeiswyr neu bleidiau gwleidyddol fel bod treuliau rhesymol y gellir eu priodoli i anabledd unigol yn cael eu heithrio (fel y nodwyd yn ddiweddar yn rheolau diwygiedig PPERA ar gyfer ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau).

Gan fod rheolau PPERA ar gyfer ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau bellach yn eithrio'r costau sy'n gysylltiedig â chyfieithu o'r Gymraeg i Saesneg ac fel arall, argymhellwn y dylai'r Llywodraeth berthnasol gyflwyno darpariaethau cyfreithiol cyfatebol i'r rheolau etholiadau sy'n ymwneud â gwariant gan ymgeiswyr a phleidiau gwleidyddol.

Yr Ymgyrch

Enwebiadau ymgeiswyr

4.17 Er mwyn sefyll etholiad mewn etholaeth, gall ymgeisydd ei enwebu ei hun drwy gwblhau a llofnodi ffurflen enwebu neu gall rhywun arall lofnodi'r ffurflen.

4.18 Rhaid i ymgeisydd hefyd gydsynio'n ffurfiol i'r enwebu drwy lofnodi ffurflen, gan ddatgan ei fod yn ymwybodol o'r hyn a fyddai'n ei anghymhwyso rhag bod yn ymgeisydd ac nad yw wedi'i anghymhwyso rhag bod yn Aelod o'r Cynulliad. Caiff ymgeiswyr rhanbarthol eu henwebu ar restrau a gyflwynir gan bleidiau gwleidyddol a rhaid i'r ymgeiswyr hynny hefyd gydsynio'n ffurfiol i'r enwebu drwy lofnodi ffurflen.

4.19 Darparodd y Comisiwn ffurflenni templed ar gyfer enwebu ymgeiswyr, a ffurflenni ar gyfer cydsynio i'r enwebu, ynghyd ag adnoddau eraill megis rhestrau gwirio i ymgeiswyr ac asiantiaid er mwyn eu helpu i gwblhau pecynnau enwebu. Cafodd y rhain eu croesawu a'u defnyddio'n eang, gan helpu i sicrhau dull gweithredu cyson ledled Cymru.

4.20 Tynnwyd ein sylw at y ffaith bod rhai pleidiau gwleidyddol yn defnyddio eu fersiynau eu hunain o'r ffurflen tystysgrif awdurdodi, ac nid oedd y rhain yn cynnwys y geiriad a ragnodir mewn deddfwriaeth. O ganlyniad i hyn, bu'n rhaid i Swyddogion Canlyniadau ofyn i bleidiau gyflwyno'r dystysgrif awdurdodi gywir sy'n cynnwys y geiriad rhagnodedig, fel y nodir yn Atodlen 10 i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007. Ar gyfer etholiadau yn y dyfodol, byddem yn pwysleisio unwaith eto y dylai pleidiau gwleidyddol naill ai ddefnyddio'r templed a roddir ar ein gwefan neu'r geiriad a ragnodir mewn deddfwriaeth.

4.21 Cynhaliodd y Comisiwn Etholiadol arolwg ôl-etholiad ymhlith ymgeiswyr. Gofynnwyd cyfres o gwestiynau i ymgeiswyr am elfennau cychwynnol y broses o sefyll fel ymgeisydd. Roedd mwy na thri chwarter (77%) yn cytuno ei bod yn hawdd cael gwybod beth oedd angen ei wneud i ddod yn ymgeisydd, a dywedodd 73% eu bod yn deall y rheolau ar gyfer dod yn ymgeisydd. Roedd 88% yn cytuno bod y broses enwebu yn syml, ac roedd yr un ganran hefyd yn cytuno ei bod wedi cael ei chynnal yn dda.

Terfynau gwario ymgeiswyr

4.22 Cafodd terfynau gwario ymgeiswyr ar gyfer etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2016 eu cynyddu yn sgil Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2016, er mwyn bod yn weithredol ar gyfer yr etholiadau ym mis Mai 2016.

4.23 Gwnaethom argymell y dylai'r terfynau gwario a fwriadwyd yn wreiddiol, a oedd yn unol â'r terfyn gwario ar gyfer etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2011, gael eu cynyddu er mwyn sicrhau bod y terfyn gwario yn gyson â'r terfyn gwario ar ymgyrchoedd byr yn etholiad Senedd yr Alban ac Etholiad Cyffredinol Senedd y DU yn 2015. Roedd ein hargymhellion hefyd yn ystyried y cynnydd sylweddol yn y gost postio ers 2005. Mae gan ymgeiswyr etholaethol swm penodedig, yn ogystal â swm amrywiol y byddant yn ei ychwanegu at y cyfanswm, yn dibynnu ar nifer yr etholwyr a'r math o etholaeth y maent yn sefyll fel ymgeisydd ynddi.

Tabl 4.1: Terfynau gwario ymgeiswyr yn 2011 a 2016:

Math o ymgeisydd	Math o sedd	Terfyn gwario 2011	Terfyn gwario 2016
Ymgeisydd etholaethol	Etholaeth fwrdeistref	£7,150 + 5c fesul etholwr	£8,700 + 6c fesul etholwr
Ymgeisydd etholaethol	Etholaeth sirol	£7,150 + 7c fesul etholwr	£8,700 + 9c fesul etholwr

Cofrestru pleidiau gwleidyddol

4.24 Rydym yn cynnal ac yn cyhoeddi'r cofrestri o bleidiau gwleidyddol ym Mhrydain Fawr a Gogledd Iwerddon. Rhaid i blaid wleidyddol gael ei chofrestru â ni er mwyn cyflwyno ymgeiswyr mewn etholiad. Gall plaid gofrestru hyd at dri arwyddlun a hyd at 12 o ddisgrifiadau y gall ymgeiswyr plaid eu defnyddio ar y papur pleidleisio.

4.25 Gall pob ymgeisydd etholaethol sy'n sefyll ar ran plaid wleidyddol gynnwys un arwyddlun plaid cofrestredig a naill ai enw cofrestredig y blaid neu ddisgrifiad cofrestredig o'r blaid ar y papur pleidleisio. Rhaid i ymgeiswyr gael caniatâd ysgrifenedig gan y blaid a'i gyflwyno i'r Swyddog Canlyniadau.

4.26 Pan ddefnyddir disgrifiad cofrestredig ar y papur pleidleisio yn lle enw cofrestredig y blaid wleidyddol, mae'n bosibl na fydd yn glir i bob pleidleisiwr pa blaid a gynrychiolir, gan nad yw disgrifiad pob plaid wleidyddol yn cynnwys enw'r blaid.

4.27 Ar gyfer ymgeiswyr sy'n sefyll ar restr ranbarthol plaid, caiff enw'r blaid ei gynnwys ar y papur pleidleisio, yn ogystal ag arwyddlun y blaid, gan ddileu'r posibilrwydd yr achosir dryswch i'r pleidleisiwr.

4.28 Rydym wedi argymell yn y gorffennol, lle y bo ymgeisydd yn cynrychioli plaid wleidyddol ar bapur pleidleisio mewn etholiad, y dylai fod yn glir i bleidleiswyr pa blaid y mae'r ymgeiswyr yn ei chynrychioli. Rydym yn dal i bryderu bod y darpariaethau cyfreithiol ar gyfer cofrestru disgrifiadau pleidiau yn peri risg y caiff pleidleiswyr eu drysu ac yn cyfyngu ar gyfranogiad pleidiau gwleidyddol[10].

4.29 Mae'r ddeddfwriaeth ynghylch cofrestru enwau, disgrifiadau ac arwyddluniau pleidiau wedi'i nodi yn Rhan 2 o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda ac fe'i cedwir. I'r gwrthwyneb, pennir y defnydd o'r nodau adnabod pleidiau hyn ar bapurau pleidleisio gan orchmynion etholiadau. Credwn fod angen diwygio'r ddeddfwriaeth yn y maes hwn mewn ffordd gydgysylltiedig.

Argymhelliad 7:
Rydym yn parhau i argymell, lle y bo ymgeisydd yn cynrychioli plaid wleidyddol ar bapur pleidleisio, y dylai fod yn glir i bleidleiswyr pa blaid y mae'r ymgeiswyr yn ei chynrychioli. Mae'r darpariaethau cyfreithiol ar gyfer cofrestru disgrifiadau pleidiau yn peri risg y caiff pleidleiswyr eu drysu ac yn cyfyngu ar gyfranogiad pleidiau gwleidyddol. Dylai Llywodraeth Cymru a Llywodraethau eraill y DU gydweithio â'r Comisiwn Etholiadol er mwyn diwygio'r darpariaethau ynghylch disgrifiadau pleidiau.

Terfynau gwario pleidiau gwleidyddol

4.30 Yn etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2016, gallai pleidiau gwleidyddol wario hyd at £10,000 ym mhob etholaeth, a hyd at £40,000 ym mhob rhanbarth lle roeddent yn ymladd etholiad. Yng Nghymru, ceir 40 o etholaethau a phum rhanbarth, a fyddai'n rhoi terfyn gwario cenedlaethol o £600,000 i blaid sy'n ymladd etholiad ym mhob etholaeth a rhanbarth.

4.31 Gan fod yr etholiadau ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu wedi'u cyfuno ag etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2016, byddai'n rhaid i unrhyw wariant gan y pleidiau at ddiben hyrwyddo'r ymgeiswyr ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu hefyd fod o fewn eu terfyn gwario ar gyfer etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Gallai hyn fod wedi rhoi rhai pleidiau dan anfantais, am eu bod yn cyflwyno ymgeiswyr yn etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r etholiadau ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, tra bod pleidiau eraill o bosibl yn ymladd un set o etholiadau yn unig.

---

[10]Y Comisiwn Etholiadol (2015) *The May 2015 UK elections: Report on the administration of the 7 May 2015 elections, including the UK Parliamentary general election*, argymhelliad 10 (yn Saesneg yn unig) http://www.electoralcommission.org.uk/__data/assets/pdf_file/0006/190959/UKPGE-report-May-2015-1.pdf

Ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau

4.32 Ar gyfer etholiadau 2016, cyhoeddodd y Comisiwn Etholiadol ganllawiau ar gyfer ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau yn etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2016, ac roedd yr holl ddogfennau ar gael ar ein gwefan yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau yn cynnwys unrhyw ymgyrchwyr nad ydynt yn ymgeiswyr nac yn bleidiau gwleidyddol. Gallant fod yn sefydliadau neu'n unigolion sy'n ymgyrchu mewn etholiadau.

4.33 Yn etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, roedd dau fath o ymgyrchoedd gan rai nad ydynt yn bleidiau:

- Ymgyrchoedd lleol: ymgyrchoedd gan rai nad ydynt yn bleidiau dros neu yn erbyn un neu fwy o ymgeiswyr mewn etholaeth neu ranbarth penodol.

- Ymgyrchoedd cyffredinol: ymgyrchoedd gan rai nad ydynt yn bleidiau dros neu yn erbyn plaid wleidyddol, neu gategorïau penodol o ymgeiswyr, gan gynnwys ymgyrchoedd ar bolisïau neu faterion sy'n gysylltiedig iawn â phlaid benodol neu gategori o ymgeiswyr.

Y Comisiwn Etholiadol sy'n rheoleiddio'r gwariant ar gyfer ymgyrchoedd cyffredinol.

4.34 Dechreuodd y cyfnod a reoleiddir ar gyfer ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau ar 5 Ionawr 2016 a daeth i ben ar y diwrnod pleidleisio, sef 5 Mai 2016. Gallai ymgyrchwyr wario hyd at £10,000 heb orfod cofrestru â ni. Pe bai ymgyrchwyr wedi bwriadu gwario mwy na'r trothwy hwn, byddai'n rhaid iddynt gofrestru â'r Comisiwn Etholiadol cyn gwario £10,000. Y terfyn gwario ar gyfer ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau yn etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2016 oedd £30,000.

4.35 Ym mis Medi 2015, aeth y Comisiwn Etholiadol i gynhadledd gan Public Affairs Cymru o'r enw “Dylanwadu, Lobïo ac Ymgyrchu yng Nghymru”, lle roedd modd i ni friffio darpar ymgyrchwyr ynghylch y rheolau ar ymgyrchu gan rai nad ydynt yn bleidiau a hefyd y newidiadau deddfwriaethol a gyflwynwyd yn 2014[11].

4.36 Ym mis Tachwedd 2015, gwnaethom drefnu a chynnal digwyddiad i ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau yng Nghaerdydd, a gwahoddwyd pob ymgyrchydd cofrestredig nad yw'n blaid sydd wedi'i leoli yng Nghymru i fod yn bresennol, ynghyd ag ymgyrchwyr a oedd wedi cysylltu â ni ynglŷn â'u gweithgareddau yn y cyfnod cyn etholiadau 2016. Rhoddodd y digwyddiad hwn esboniad manylach o'r rheolau sydd ar waith, gan edrych ar ein canllawiau lle bo hynny'n berthnasol.

Terfynau gwario

4.37 Y terfyn gwario ar gyfer ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau yn etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2016 oedd £30,000 am gyfnod a reoleiddir o bedwar mis. Y terfyn gwario yng Nghymru ar gyfer Etholiad Cyffredinol diweddar Senedd y DU oedd £44,000 am gyfnod a reoleiddir o saith mis a hanner yn 2015[12]. Awgrymwn y

[11] Cyflwynwyd y newidiadau yn sgil Deddf Tryloywder Lobïo, Ymgyrchwyr Nad Ydynt yn Bleidiau a Gweinyddu Undebau Llafur 2014.

[12] Gall y terfynau gwario ar gyfer ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau fod yn is yn Etholiadau Cyffredinol Senedd y DU yn y dyfodol yn dilyn yr adolygiad o ffiniau Seneddol, gan fod y fformwla yn y ddeddfwriaeth yn seiliedig ar nifer yr etholaethau.

gallai fod mwy o gysondeb rhwng y terfynau gwario ar gyfer ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau mewn etholiadau a gynhelir yng Nghymru (a hefyd mewn rhannau eraill o'r DU). Byddai'n rhaid i unrhyw newidiadau gael eu hystyried a'u gwneud gan y Llywodraethau a'r deddfwrfeydd perthnasol.

Monitro a chydymffurfio

4.38 Mae angen i bleidleiswyr fod yn hyderus bod y gyfraith ar gyllid pleidiau ac etholiadau yn cael ei dilyn, ac yr ymdrinnir yn briodol ac effeithiol â'r rhai sy'n torri'r gyfraith. Mae'r tryloywder hwn yn golygu bod modd cael lefelau uchel o graffu a thrafodaeth ynghylch sut y caiff pleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau eu hariannu a sut maent yn gwario eu harian yn ystod etholiadau. Disgwylir i bleidiau gwleidyddol, ymgeiswyr ac ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau gydymffurfio â'r holl reolau a rheolaethau a nodir yn y ddeddfwriaeth berthnasol.

4.39 Lluniodd y Comisiwn ganllawiau penodol i bleidiau, ymgeiswyr ac ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau ar gyfer yr etholiad, a gwnaethom gynnig gwasanaeth cynghori er mwyn ateb cwestiynau ymgyrchwyr am y rheolau, gydag ychydig dros hanner yr holl ymgeiswyr (55%) yn cytuno bod y Comisiwn yn ffynhonnell ddefnyddiol o gyngor a chanllawiau yn ystod yr ymgyrch, gyda 10% yn anghytuno, ac 18% yn dweud nad oeddent wedi'i ddefnyddio.

4.40 Roeddem yn rhagweithiol o ran codi ymwybyddiaeth o'r rheolau, gan gynnwys anfon y canllawiau at bleidiau ac ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau, cynnal sesiynau yng nghynadleddau pleidiau yng Nghymru yn ystod hydref 2015, ac eto yn ystod gwanwyn 2016, gan rannu'r canllawiau i ymgeiswyr ac asiantiaid â'r ymgeiswyr drwy eu pleidiau, a chynnal seminar ar gyfer ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru. Mae'r dull gweithredu hwn yn ategu nod y Comisiwn o sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheolau drwy gymorth a chanllawiau.

4.41 Fel rhan o'n dull gweithredu seiliedig ar risg ar gyfer rheoleiddio cyllid pleidiau ac etholiadau, gwnaethom waith desg i fonitro ymgyrchoedd pleidiau a'r rhai nad ydynt yn bleidiau yn etholiad y Cynulliad. Diben y gwaith hwn oedd hybu cydymffurfiaeth drwy gasglu gwybodaeth am ymgyrchoedd y gellid cyfeirio ati wrth wirio ffurflenni gwariant statudol, ac ar gyfer ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau yr ymddengys eu bod yn cydweithio â'i gilydd, a naill ai'n cefnogi pleidiau penodol neu gategorïau o ymgeiswyr neu'n ymgyrchu yn eu herbyn.

4.42 O dan Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA), mae'r Comisiwn yn rheoleiddio pleidiau a gwleidyddol ac ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau yn etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Er bod gennym gyfrifoldebau am fonitro cydymffurfiaeth â'r rheolau ar dreuliau a rhoddion ymgeiswyr, a chymryd pob cam rhesymol i sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheolau hynny, o dan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 ac yn unol â'r ddeddf honno, cyfrifoldeb yr heddlu a chyrff erlyn cyhoeddus, yn y drefn honno, yw ymchwilio i achosion lle yr honnir bod ymgeiswyr unigol wedi torri'r rheolau ac unrhyw erlyniadau cysylltiedig o dan y ddeddfwriaeth honno.

4.43 Lle y nodir achosion posibl o dorri PPERA neu droseddau o dan y ddeddf honno, byddwn yn ystyried p'un a ddylid cynnal ymchwiliad. Lle y bo'n briodol, ac yn unol â'n

Polisi Gorfodi[13], byddwn yn gosod sancsiynau ar y rhai sy'n methu â chydymffurfio â PPERA.

4.44 Ym mis Medi 2016, byddwn yn cyhoeddi manylion am faint a wariodd pleidiau gwleidyddol lle roedd eu gwariant yn llai na £250,000. Roedd yn ofynnol i'r pleidiau hynny gyflwyno ffurflenni gwariant i ni dri mis ar ôl yr etholiad, erbyn 5 Awst 2016. Byddwn hefyd yn cyhoeddi manylion am wariant gan ymgyrchwyr cofrestredig nad ydynt yn bleidiau ym mis Medi 2016.

4.45 Byddwn yn cyhoeddi manylion am wariant gan bleidiau gwleidyddol a wariodd fwy na £250,000 ym mis Ionawr 2017. Mae'n ofynnol i'r pleidiau hynny gyflwyno ffurflenni gwariant i ni chwe mis ar ôl yr etholiad, erbyn 5 Tachwedd 2016, ynghyd ag archwiliad annibynnol o'u ffurflen gwariant.

4.46 Mae'n ofynnol i Swyddogion Canlyniadau sicrhau bod ffurflenni gwariant ymgeiswyr ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio am ddwy flynedd ac anfon copïau o'r ffurflenni gwariant a datganiadau ymlaen i'r Comisiwn, ynghyd ag unrhyw ddogfennaeth gysylltiedig arall y gofynnwn amdani. Rydym wedi casglu gwybodaeth bennawd am wariant a rhoddion o'r ffurflenni hyn a byddwn yn cyhoeddi crynodeb o'r data ar ein gwefan maes o law. Gwnawn hyn er mwyn sicrhau bod mwy o dryloywder o ran y ffordd y cafodd yr etholiad ei ariannu a'i ymladd. Rydym hefyd yn cynnal gwiriadau seiliedig ar risg o b'un a oedd rhoddwyr yn rhai a ganiateir a chywirdeb y ffurflenni a gyflwynwyd, gan ganolbwyntio ein hadnoddau lle y byddai diffyg cydymffurfio wedi cael yr effaith bosibl fwyaf ar hyder yn y broses wleidyddol.

4.47 Ar hyn o bryd, dim ond ar ffurf copïau caled y mae ffurflenni gwariant ymgeiswyr ar gael gan Swyddogion Canlyniadau i'r cyhoedd eu harchwilio, a gall unrhyw un sydd â diddordeb mewn archwilio ffurflen wneud apwyntiad i'w gweld. Gan fod y rhyngrwyd yn cael ei ddefnyddio fwyfwy, rydym wedi argymell yn y gorffennol y dylai ffurflenni gwariant ymgeiswyr ar gyfer etholiadau hefyd fod ar gael i'w gweld ar-lein, ac y dylai'r ddeddfwriaeth ddarparu'n benodol ar gyfer hyn. Byddai newid o'r fath yn gwella tryloywder yn lleol ac yn genedlaethol drwy sicrhau bod mwy o ffyrdd o gael gafael ar wybodaeth am wariant a rhoddion ymgeiswyr mewn etholiadau.

Argymhelliad 8:
Er mwyn gwneud ffurflenni gwariant ymgeiswyr yn fwy tryloyw a hygyrch, rydym wedi argymell yn y gorffennol y dylai fod yn ofynnol i Swyddogion Canlyniadau gyhoeddi ffurflenni gwariant ar-lein yn ogystal â thrwy'r dulliau presennol o archwilio gan y cyhoedd. Rydym yn cefnogi argymhelliad 12-5 o adolygiad 12 Comisiwn y Gyfraith o Gyfraith Etholiadol sy'n cynnig dull o roi'r newid hwn ar waith drwy ddeddfwriaeth[14].

[13] Gorfodi – honiadau a gwaith achos http://www.electoralcommission.org.uk/cymru/our-work/roles-and-responsibilities/our-role-as-regulator-of-political-party-finances/making-an-allegation

[14] Adolygiad Comisiwn y Gyfraith o Gyfraith Etholiadol, Argymhelliad 12-3, tudalen 161 (yn Saesneg yn unig) http://www.lawcom.gov.uk/wp-content/uploads/2016/02/electoral_law_interim_report.pdf ac argymhelliad 37 o Adolygiad Rheoleiddiol y Comisiwn Etholiadol o Gyllid Pleidiau ac Etholiadau 2013 (yn Saesneg yn unig) http://www.electoralcommission.org.uk/__data/assets/pdf_file/0008/157499/PEF-Regulatory-Review-2013.pdf

Materion, tueddiadau a datblygiadau yn ymwneud ag ymgyrchu

4.48 Yn ystod y cyfnod cyn etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gwnaethom nodi nifer o faterion yn ymwneud â chydymffurfio y bydd angen eu hystyried yn fanylach cyn etholiadau yn y dyfodol. Amlinellir y materion hyn yn yr adran ganlynol.

Argraffnodau

4.49 Drwy waith monitro ymgyrchoedd, gwnaethom nodi llawer o bleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr nad oedd ganddynt argraffnod cyflawn ar eu deunydd ymgyrchu. Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i ychwanegu argraffnod at yr holl ddeunydd a gyhoeddir er mwyn dangos pwy sy'n gyfrifol am ei lunio. Gwnaethom gysylltu â'r ymgyrchwyr yr oedd modd i ni eu nodi er mwyn rhoi gwybod iddynt am y gofynion o ran argraffnodau, a gwnaethom hefyd ofyn i'r pleidiau gwleidyddol sicrhau bod eu cefnogwyr yn ymwybodol o'r gofynion.

Rheoleiddio gwariant a rhoddion ymgeiswyr

4.50 Yn ein harolwg o farn y cyhoedd, gwnaethom ofyn i ba raddau roedd pobl yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad 'os bydd plaid wleidyddol neu ymgyrchydd arall yn cael ei ddal yn torri'r rheolau, bydd yr awdurdodau yn cymryd camau priodol'; roedd 72% yn cytuno y byddai camau priodol yn cael eu cymryd, ac roedd 18% yn anghytuno.

4.51 Cawsom nifer o ymholiadau am achosion posibl o dorri'r rheolau mewn perthynas â chydymffurfiaeth ymgeiswyr ac asiantiaid, gan gynnwys rhai cwynion yn gofyn i'r Comisiwn ymchwilio i achosion honedig o dorri'r rheolau i ymgeiswyr. Gan nad oes gennym y pwerau hyn, gwnaethom ofyn i'r rhai a oedd yn cwyno gysylltu â'r heddlu yn uniongyrchol. Gall y ffaith bod dau fframwaith rheoleiddio yn bodoli ar gyfer troseddau tebyg beri dryswch ymhlith pleidleiswyr ynglŷn â phwy sy'n gyfrifol am achosion o dorri'r rheolau. Mae'r system reoleiddio ddeuol hefyd yn golygu bod gan yr heddlu a'r Comisiwn ddulliau gweithredu gwahanol ar gyfer delio â throseddau tebyg.

4.52 Rydym wedi argymell yn y gorffennol y dylid ymestyn ein pwerau ymchwilio a gosod sancsiynau mewn etholiadau mawr, ar gyfer troseddau sy'n ymwneud â gwariant a rhoddion ymgeiswyr. Rydym yn dal o'r farn y byddai'r newid hwn yn helpu i sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheolau ac yn atgyfnerthu ymddiriedaeth y pleidleiswyr yn y system reoleiddio[15].

4.53 Rydym yn cydnabod y byddai gosod a chynnal y strwythurau priodol, gan gynnwys o fewn y Comisiwn, ar gyfer sicrhau bod fframwaith gwell yn gweithio'n effeithiol yn arwain at gost barhaus. Fel gydag unrhyw ddiwygiad sylweddol i'r fframwaith rheoleiddio, byddai angen cyfnod rhagarweiniol cyn y mathau hyn o newidiadau er mwyn galluogi'r Llywodraethau perthnasol i ailstrwythuro'r gyfraith, ac yna roi digon o amser i ymgyrchwyr, y Comisiwn ac awdurdodau gorfodi'r gyfraith addasu i'r newidiadau cyn iddynt gael eu rhoi ar waith. Bydd yn bwysig i Lywodraethau a Seneddau ledled y DU gydweithio er mwyn cyflwyno pwerau newydd y Comisiwn ar gyfer gwahanol setiau o etholiadau. Byddai hyn yn hwyluso trosglwyddo'n esmwyth i

---

[15] Y Comisiwn Etholiadol, Adolygiad Rheoleiddiol o Gyllid Pleidiau ac Etholiadau 2013, Argymhelliad 43, a'r Comisiwn Etholiadol, Adroddiad ar wariant ar ymgyrchu yn ystod Etholiad Cyffredinol Senedd y DU 2015 (yn Saesneg yn unig) http://www.electoralcommission.org.uk/__data/assets/pdf_file/0006/197907/UKPGE-Spending-Report-2015.pdf, Argymhelliad 1

system gydgysylltiedig o reoleiddio a gorfodi ar gyfer ymgeiswyr a phleidiau ledled y DU.

Argymhelliad 9:
Rydym yn parhau i argymell ymestyn ein pwerau ymchwilio a gosod sancsiynau mewn etholiadau mawr yn achos troseddau sy'n ymwneud â gwariant a rhoddion ymgeiswyr, gan gynnwys yn etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Bydd yn bwysig i Lywodraethau a Seneddau ledled y DU gydweithio er mwyn cyflwyno pwerau newydd y Comisiwn ar gyfer gwahanol setiau o etholiadau.

Ymgyrchu ar-lein ac yn y cyfryngau cymdeithasol

4.54 Mae defnyddio cyfryngau cymdeithasol i ymgyrchu yn etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi cynyddu'n sylweddol ers etholiad 2011. Yn unol â hynny, ceir diddordeb a ffocws cynyddol ar y ffordd y mae ymgyrchwyr yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn ystod y cyfnod a reoleiddir, yn ogystal â sicrhau bod pobl yn deall y rheolau ar ymgyrchu mewn cyd-destun ar-lein ac yn cydymffurfio â nhw.

4.55 Gall ymgyrchu ar-lein amrywio o weithgarwch anffurfiol cost isel drwy ddarparwyr cyfryngau cymdeithasol mwy, i gostau staff sy'n gysylltiedig â diweddaru'r dulliau cyfathrebu hyn. Roedd gan y rhan fwyaf o ymgyrchwyr yn etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru bresenoldeb “Ar-lein” ac yn y cyfryngau cymdeithasol.

4.56 Er nad oes unrhyw reolaethau penodol o fewn PPERA ynghylch defnyddio cyfryngau cymdeithasol neu ddulliau ymgyrchu digidol, byddai unrhyw wariant o'r fath yn amodol ar y gofynion cyfredol o ran gwariant ac adrodd. Fodd bynnag, wrth i'r ffordd y defnyddir cyfryngau cymdeithasol esblygu, bydd yn bwysig monitro a deall technegau ymgyrchu sy'n newid. Ar hyn o bryd, nid yw cyfryngau cymdeithasol yn gategori adrodd ar wahân, felly dim ond gwariant a nodir o dan y categorïau presennol, megis 'hysbysebu' neu 'ddeunydd digymell a anfonwyd at bleidleiswyr' y bydd modd i ni ei ddadansoddi. O'n profiad o ddadansoddi ffurflenni gwariant ar gyfer Etholiad Cyffredinol Senedd y DU yn 2015, dim ond os oedd yr anfonebau a amgaewyd yn y ffurflenni gwariant yn nodi bod y cyflenwr yn ddarparwr cyfryngau cymdeithasol yr oedd modd i ni nodi gwariant ar gyfryngau cymdeithasol. Rydym yn rhagweld y bydd hyn hefyd yn wir am y ffurflenni gwariant ar gyfer yr etholiad hwn, gan fod y categorïau adrodd yr un peth.

Argymhelliad 10:
Byddwn yn ystyried ymhellach sut y dylai ymgyrchwyr adrodd ar wariant ar gyfryngau cymdeithasol mewn etholiadau yn y dyfodol. Wrth i wariant yn y maes hwn gynyddu, ceir potensial am lai o dryloywder os na ellir nodi gwariant ar gyfryngau cymdeithasol yn hawdd yn y ffurflenni gwariant, oherwydd nid yw cyfryngau cymdeithasol yn gategori penodol ar y ffurflen. Bydd angen ystyried hyn fel rhan o'r broses o adolygu'r holl gategorïau gwariant yr adroddir arnynt er mwyn sicrhau eu bod yn dal i fod yn gymesur ac yn berthnasol i dueddiadau ymgyrchu yn y dyfodol. Rhag ofn y byddai angen rhoi unrhyw rai o'r newidiadau hyn ar waith drwy ddeddfwriaeth, argymhellwn y dylai

Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a deddfwrfeydd ystyried yr amseru sydd ei angen ar gyfer rhoi newidiadau ar waith cyn yr etholiadau mawr nesaf[16].

[16] Gwnaethom yr un argymhelliad mewn perthynas â chategorïau gwariant Etholiad Seneddol y DU, ac ar gyfer etholiadau Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon yn ein hadroddiadau ôl-etholiad yn 2015 a 2016

5 Ymwybyddiaeth y cyhoedd

Annog pobl i gofrestru

Cofrestriad Etholiadol Unigol

5.1 Wynebwyd yr her o sicrhau bod cynifer â phosibl o bobl yn cofrestru cyn etholiadau mis Mai 2016 ar yr un pryd â'r newid i Gofrestriad Etholiadol Unigol (IER).

5.2 Cyflwynwyd IER ym mis Mehefin 2014 yn lle'r hen system cofrestru cartrefi a oedd yn seiliedig ar y 'penteulu' yn cwblhau ffurflenni cofrestru ar ran pob aelod arall o'r cartref. Mae'r cysyniad hwn yn hen ffasiwn o ran strwythur cymdeithas yn yr oes sydd ohoni, ac nid oedd yn galluogi unigolion i reoli a chynnal eu cofrestriad personol eu hunain. Roedd angen newid i'r system newydd hon er mwyn sicrhau system fwy modern a diogel.

5.3 Daeth y cyfnod o newid i ben gyda chyhoeddiad y cofrestri diwygiedig ym mis Rhagfyr 2015.

5.4 Ym mis Mehefin 2015, cyhoeddodd y Comisiwn fod 68,042 o gofnodion ar gofrestri etholiadol mis Mai 2015 yng Nghymru wedi cael eu cadw ers y cofrestrau cartrefi blaenorol. Yn dilyn llawer o waith gan Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'u staff, gan gynnwys proses ganfasio gynhwysfawr, roedd y nifer a dynnwyd o'r cofrestri ar ddiwedd y cyfnod o newid ym mis Rhagfyr 2015 wedi lleihau i oddeutu 33,000. Roedd hyn gyfwerth ag 1.5% o'r etholwyr yng Nghymru, er bod hyn yn amrywio'n sylweddol fesul awdurdod lleol.

Cofrestru ar-lein

5.5 Roedd cyflwyno IER ym mis Mehefin 2014 hefyd yn galluogi pobl i gofrestru ar-lein am y tro cyntaf.

5.6 Rhwng 1 Chwefror 2016, pan ddechreuodd ein gweithgareddau codi ymwybyddiaeth y cyhoedd, a'r terfyn amser ar gyfer cofrestru ar 18 Ebrill, gwnaed 96,036 o geisiadau i gofrestru yng Nghymru. Gwnaed 79,458 (83%) o'r rhain ar-lein ac roedd 16,578 yn geisiadau papur.

5.7 Mae'r gwasanaeth cofrestru ar-lein wedi bod yn arbennig o boblogaidd ymhlith rhai o'r grwpiau hynny sydd fel arfer wedi'u tangofrestru, megis pobl ifanc.

5.8 Fodd bynnag, mae Swyddogion Cofrestru Etholiadol wedi pryderu'n gyson ynglŷn â nifer y ceisiadau dyblyg a wneir gan ddefnyddio'r cyfleuster ar-lein. Ar hyn o bryd, nid oes darpariaeth ar-lein ar gael i bobl allu gwirio p'un a ydynt eisoes ar y gofrestr etholiadol cyn gwneud cais ar-lein. O ganlyniad i hynny, mae nifer sylweddol o geisiadau ar-lein yn geisiadau dyblyg gan bobl sydd eisoes ar y gofrestr etholiadol. Gall hyn arwain at waith ychwanegol a diangen i Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn ystod y cyfnod prysur cyn y terfyn amser ar gyfer cofrestru.

5.9 Mae Swyddogion Cofrestru Etholiadol hefyd wedi nodi ei bod yn bosibl nad oedd rhai etholwyr yn ymwybodol, er bod y gwasanaeth ar-lein wedi caniatáu iddynt wneud

cais i gofrestru, nad oedd hynny'n golygu bod eu cais yn cael ei gymeradwyo'n awtomatig nac ar unwaith. Rhaid i bob cais i gofrestru, boed hynny ar bapur neu ar-lein, fynd drwy weithdrefn ddilysu cyn i'r unigolyn dan sylw gael ei roi ar y gofrestr etholiadol. Mewn rhai achosion, lle na ellir dilysu data'r sawl sy'n gwneud cais yn erbyn cofnodion yr Adran Gwaith a Phensiynau neu gofnodion lleol, rhaid i'r unigolyn gyflwyno tystiolaeth i ategu ei gais cyn y gellir ei ychwanegu at y gofrestr.

5.10 Fel rhan o'r broses o wneud cais ar-lein, gall y sawl sy'n gwneud cais roi tic mewn blwch i nodi ei fod hefyd am wneud cais am bleidlais bost ar ôl iddo gofrestru. Wedyn, bydd ffurflen gais pleidlais bost yn cael ei hanfon at yr unigolyn drwy'r post neu e-bost, a bydd angen iddo ei chwblhau a'i dychwelyd i'w awdurdod lleol. Mae Swyddogion Cofrestru Etholiadol wedi nodi bod y broses hon yn achosi llawer o ddryswch. Nid yw rhai etholwyr wedi dychwelyd y ffurflen gais pleidlais bost am eu bod yn meddwl eu bod eisoes wedi cwblhau'r cam hwn fel rhan o'u cais ar-lein.

5.11 Nodwyd bod anfon llythyr at bob cartref yn rhestru pwy a oedd wedi cofrestru i bleidleisio yn y cyfeiriad hwnnw yn weithgaredd a allai gyfrannu at helpu Swyddogion Cofrestru Etholiadol i sicrhau bod eu cofrestri mor gywir a chyflawn â phosibl cyn etholiadau mis Mai.

5.12 O ganlyniad i hyn, anfonwyd Llythyr Hysbysu Cartrefi, a ariannwyd gan Swyddfa'r Cabinet, i bob cartref ledled Cymru, Lloegr a'r Alban cyn Etholiad Cyffredinol Senedd y DU ym mis Mai 2015.

5.13 Ym mis Chwefror 2016, darparodd Llywodraeth Cymru £330,000 tuag at gostau dosbarthu llythyr tebyg yng Nghymru cyn etholiadau mis Mai. Cafodd pob un o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru gyfran o'r cyllid hwn.

5.14 Roedd i'r dull gweithredu hwn nifer o fanteision amlwg a gyfrannodd at helpu Swyddogion Cofrestru Etholiadol i sicrhau bod eu cofrestri mor gywir a chyflawn â phosibl, gan gynnwys: annog y rhai nad oeddent wedi cofrestru eto i wneud hynny, helpu'r rhai a oedd wedi symud i mewn i'r ardal gofrestru, neu allan ohoni, yn ddiweddar i gofrestru, a rhoi cyfle i breswylwyr wirio bod eu manylion ar y gofrestr yn gywir.

Ein hymgyrch codi ymwybyddiaeth y cyhoedd

5.15 Gwnaethom gynnal ymgyrch i godi ymwybyddiaeth pobl o etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a sut i gymryd rhan, gan gynnwys sicrhau bod pobl yn gwybod bod yn rhaid iddynt gofrestru i bleidleisio erbyn 18 Ebrill a sut i fwrw eu pleidlais. Roedd ein hymgyrch yn cynnwys: hysbysebu; anfon llyfryn gwybodaeth i bob cartref; a gweithgareddau partneriaeth a chysylltiadau cyhoeddus.

5.16 Gwnaethom hysbysebu yn y cyfryngau cymdeithasol ac ar wefannau o fis Chwefror ymlaen ac ar y teledu a'r radio o 14 Mawrth ymlaen. Gwnaethom hefyd ddosbarthu llyfryn i bob cartref yng Nghymru rhwng 4 a 7 Ebrill.

5.17 Roedd y llyfryn hwn yn cynnwys gwybodaeth am gofrestru i bleidleisio; sut i gwblhau'r gwahanol bapurau pleidleisio; sut i bleidleisio (yn bersonol, drwy'r post neu drwy ddirprwy); a ble i gael rhagor o wybodaeth. Gallwch weld y llyfryn ar ein gwefan.

5.18 Gwnaethom ddefnyddio hysbysebion o'n hymgyrch ar gyfer Etholiad Cyffredinol Senedd y DU yn 2015, gyda negeseuon wedi'u diweddaru am etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Roedd hyn yn cynnwys ein hysbyseb teledu 'Beth?', y gallwch ei weld yn Gymraeg ac yn Saesneg, yn ogystal â hysbysebion baner ar gyfer cyfryngau cymdeithasol a gwefannau gyda negeseuon penodol a oedd wedi'u hanelu at bobl ifanc, myfyrwyr a phobl a oedd wedi symud cartref.

5.19 Gwnaethom hefyd ffurfio partneriaeth â First Radio a Global Radio. Roedd hyn yn cynnwys defnyddio hysbysebion a grëwyd yn arbennig ar bob un o'u gorsafoedd a rhoi gwybodaeth ar eu gwefannau.

5.20 Gwnaethom hefyd ddatblygu ein gwefan fymhleidlaisi.co.uk er mwyn iddi gynnwys mwy o wybodaeth leol ac er mwyn ei gwneud yn fwy addas i'w defnyddio ar ddyfeisiau symudol. Gwnaethom hefyd greu fideos byr wedi'u hanimeiddio a oedd yn dangos i bobl sut i fwrw eu pleidlais ar bob un o'r tri phapur pleidleisio a ddefnyddiwyd yn yr etholiadau yng Nghymru, a gwnaethom hyrwyddo'r rhain yn y cyfryngau cymdeithasol.

5.21 Roedd gennym fersiynau Cymraeg o'n holl hysbysebion, a oedd yn cynnwys dangos ein hysbyseb teledu ar S4C, a gwnaethom rannu gwybodaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg yn ein llyfryn, ar ein gwefan a thrwy ein canolfan alwadau.

5.22 Gwnaethom nodi mai pobl ifanc a phobl a oedd wedi symud cartref y byddai'r newid i IER yn effeithio fwyaf arnynt, a phan benderfynodd Llywodraeth y DU ddod â'r cyfnod o newid i ben yn gynharach, sef mis Rhagfyr 2015, gwnaethom ymestyn ein hymgyrch er mwyn iddi gynnwys partneriaeth â Channel 4 i gynhyrchu hysbyseb yn cynnwys rhai aelodau o gast y rhaglen deledu Hollyoaks, wedi'i hategu gan weithgareddau cysylltiadau cyhoeddus a chyfryngau cymdeithasol.

5.23 Ceir rhagor o wybodaeth am ein gwerthusiad o'r ymgyrch hon ym mharagraff 5.40 yr adroddiad hwn.

Gweithio mewn partneriaeth i dargedu grwpiau sydd wedi'u tangofrestru

5.24 Gall gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill fod yn ffordd rymus o helpu i godi ymwybyddiaeth o gofrestru etholiadol. Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth geisio cyrraedd y bobl hynny sydd lleiaf tebygol o fod wedi cofrestru i bleidleisio. Y grwpiau a dargedwyd gennym ar gyfer yr etholiadau hyn oed pobl ifanc, cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, myfyrwyr, pobl a oedd wedi symud cartref a phobl sy'n byw mewn llety rhent preifat.

5.25 Roeddem am gydweithio â phartneriaid er mwyn annog pobl i gofrestru i bleidleisio cyn 18 Ebrill a hefyd er mwyn sicrhau bod pleidleiswyr yn gwybod sut i gwblhau'r tri phapur pleidleisio ar y diwrnod pleidleisio. Gwnaethom adeiladu ar y gwaith llwyddiannus a wnaed mewn partneriaeth ar gyfer Etholiad Cyffredinol Senedd y DU, gan weithio gyda'r un sefydliadau a chwilio am bartneriaid newydd.

5.26 Gan gydnabod y gall rhai pobl yn y grwpiau roeddem wedi'u nodi fel rhai nad oeddent eisoes wedi cofrestru fod yn llai tebygol o fod wedi cofrestru ac o ymateb i'n hysbysebion ar y teledu ac ar-lein, gwnaethom ffurfio partneriaethau â 21 o sefydliadau yng Nghymru, gan gynnwys sefydliadau corfforaethol a gwirfoddol a sefydliadau'r sector cyhoeddus a allai ein helpu i gyrraedd y bobl hyn.

5.27 Roedd ein partneriaid yn cynnwys:

Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan	Llamau	Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog	Mencap Cymru	Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru
Cymdeithas Dai Cadwyn	Cartrefi Melin	RNIB Cymru
Coleg Cambria	Cymdeithas Pobl Hŷn Leiafrifol Ethnig	Shelter Cymru
Cyngor ar Bopeth Cymru	Cynulliad Cenedlaethol Cymru	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Tai Cymunedol Cymru	Heddlu Gogledd Cymru	The Wallich
Anabledd Dysgu Cymru	UCM Cymru	Urdd

5.28 Gwnaeth gweithio â sefydliadau partner yng Nghymru ein galluogi i ddechrau gweithgareddau codi ymwybyddiaeth y cyhoedd cyn i'r brif ymgyrch ddechrau ar 14 Mawrth. Gwnaethom hwyluso cymorth gan bartneriaid drwy roi canllawiau, llunio adnoddau, trefnu cyfleoedd ar gyfer cysylltiadau cyhoeddus a chadw mewn cysylltiad yn rheolaidd drwy fwletinau electronig, galwadau ffôn, negeseuon e-bost a chyfarfodydd. Mae rhestr lawn o'n partneriaid ar gael ar ein gwefan.

5.29 Gwnaethom lunio nifer o adnoddau er mwyn i sefydliadau partner eu defnyddio yng Nghymru. Roedd hyn yn cynnwys pecyn partneriaeth a oedd yn cynnwys adnoddau cyffredinol fel posteri, testun copi ar gyfer cylchlythyrau a thrydariadau a gweithgareddau enghreifftiol. Roedd hefyd yn cynnwys blwch pleidleisio anferth ac 'X' wedi'u llenwi ag aer, fersiynau mawr o'r tri phapur pleidleisio y byddai pleidleiswyr yn eu cael yng Nghymru a fersiwn fawr o glawr y llyfryn i gartrefi.



5.30 Gwnaethom hefyd gydweithio â phartneriaid penodol i lunio adnoddau ar y cyd. Gwnaethom gydweithio ag RNIB Cymru i lunio taflen ffeithiau yn disgrifio'r cymorth sydd ar gael i bleidleiswyr â cholled golwg, fel dyfeisiau pleidleisio cyffyrddadwy mewn gorsafoedd pleidleisio. Gwnaethom hefyd lunio taflen ffeithiau hawdd ei deall ar y cyd â Mencap Cymru er mwyn i bleidleiswyr ag anableddau dysgu allu cael yr holl wybodaeth roedd ei hangen arnynt i fwrw eu pleidlais.

5.31 Gwnaethom lunio taflen ffeithiau â phoster mewn partneriaeth â nifer o sefydliadau sy'n gweithio gyda phobl ddigartref yng Nghymru er mwyn atgoffa pobl nad oes ganddynt gyfeiriad sefydlog y gallent gofrestru i bleidleisio a chymryd rhan yn yr ehtoliadau ar 5 Mai o hyd.

5.32 Gwnaethom hefyd lunio poster mewn 10 iaith (ar wahân i Gymraeg a Saesneg), ar y cyd â Chyngor ar Bopeth (CAB). Dewiswyd yr ieithoedd mwyaf cyffredin a siaredir mewn ardaloedd amrywiol, fel y nodwyd gan CAB.

5.33 Arweiniodd gweithgareddau gyda phartneriaid at gyfleoedd ar gyfer cysylltiadau cyhoeddus a sicrhaodd sylw ychwanegol yn y cyfryngau yn ystod yr ymgyrch. Roedd hyn yn cynnwys erthygl tudalen lawn yn y Western Mail a oedd yn disgrifio astudiaeth achos a ddarparwyd gan The Wallich ac yn cynnwys dyfyniad gan y Comisiwn. Byddai gosod hysbyseb tudalen lawn yn y Western Mail wedi costio £1,400 ond, drwy weithio mewn partneriaeth, roedd modd i ni gyrraedd bron i 19,000 o ddarllenwyr heb unrhyw gost ychwanegol i'r Comisiwn.

5.34 Yn ogystal â'r sylw hwn, roedd y propiau llawn aer yn gyfle i neges y Comisiwn am gofrestru gyrraedd cynulleidfa ehangach. Defnyddiwyd y propiau mewn nifer o ddigwyddiadau partner roedd staff y Comisiwn yn bresennol ynddynt. Roedd hyn yn

cynnwys digwyddiad yn y Senedd, a gafodd gryn sylw, i lansio ymgyrch Cynulliad Cenedlaethol Cymru i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd, lle yr ymddangosodd y propiau brand ar BBC Wales Today a The Sharp End ar ITV Cymru.

5.35 Gwnaethom gydweithio â Facebook i atgoffa pleidleiswyr ledled y DU ddydd Mawrth 12 Ebrill mai llai nag wythnos oedd ar ôl i gofrestru, a dweud wrthynt am gofrestru drwy borth gov.uk. Ar y diwrnod hwn cyflwynwyd 127,000 o geisiadau i gofrestru ar-lein, sef y nifer fwyaf o geisiadau a gafwyd ar unrhyw ddiwrnod drwy gydol yr ymgyrch. Roedd hyn yn cynnwys 5,600 o geisiadau yng Nghymru.

Y Wasg a Chysylltiadau Cyhoeddus

5.36 Roedd defnydd y Comisiwn o'r cyfryngau yng Nghymru cyn yr etholiadau ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn canolbwyntio ar gofrestru, gwybodaeth i bleidleiswyr a dosbarthu'r llyfryn gwybodaeth. Cafwyd sylw mewn cyhoeddiadau cenedlaethol a lleol yng Nghymru fesul tipyn drwy gydol cyfnod yr ymgyrch.

5.37 Cafodd cerrig milltir allweddol, fel lansio ymgyrch y Comisiwn, straeon 'y cyfle olaf i gofrestru' a gwybodaeth i bleidleiswyr yn union cyn y diwrnod pleidleisio, sylw cenedlaethol a lleol. Roedd hyn yn cynnwys darnau yn y Western Mail, yn y Daily Post ac ar BBC Ar-lein Cymru. Hefyd, cafodd llefarwyr ar ran y Comisiwn eu holi ar orsafoedd radio lleol a chenedlaethol yn Gymraeg ac yn Saesneg.

5.38 Yn ogystal â hyn, rhoddodd y Comisiwn gyfres o dempledi o ddatganiadau i'r wasg i awdurdodau lleol y gellid eu cyhoeddi ar adegau allweddol yn ystod yr ymgyrch. Gellid teilwra pob datganiad i'r wasg yn benodol i'r awdurdod lleol dan sylw, ac roedd pob un yn cynnwys dyfyniad gan Bennaeth y Comisiwn Etholiadol yng Nghymru. Helpodd yr adnoddau hyn i gael mwy o sylw yn y cyfryngau lleol.

5.39 Creodd y Comisiwn lawlyfr ar gyfer y cyfryngau fel adnodd gwybodaeth allweddol i aelodau o'r cyfryngau. Roedd y llawlyfr yn cynnwys crynodeb o wybodaeth allweddol, gan gynnwys y rolau allweddol yn ystod yr etholiadau, cofrestru pleidleiswyr, rheolau i ymgeiswyr, y system bleidleisio a rheolau ymgyrchu. Mae fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r llawlyfr ar gael ar wefan y Comisiwn.

Mesur perfformiad ein hymgyrch

5.40 Er mwyn helpu i fesur perfformiad ein hymgyrch, y targed a bennwyd gennym oedd i 75% o bobl adnabod o leiaf un elfen o'r ymgyrch. Gwnaethom ragori ar y targed hwn gyda chanlyniad o 83%.

5.41 Gwnaethom bennu targed o 65,000 o geisiadau i gofrestru yn cael eu gwneud ar-lein yng Nghymru rhwng dechrau ein hymgyrch hysbysebu ar y teledu ar 14 Mawrth a'r terfyn amser ar gyfer cofrestru ar 18 Ebrill. Cafwyd 49,340 o geisiadau, sy'n golygu na wnaethom gyrraedd y targed hwn.

5.42 Yn ogystal â nifer y ceisiadau ar-lein, gwnaethom bennu targed ar gyfer nifer y bobl a ychwanegwyd at y gofrestr. Mae hyn am fod rhai ceisiadau yn rhai dyblyg neu'n rhai lle nad oes modd dilysu manylion adnabod y sawl sy'n gwneud cais, felly ni chaiff yr unigolion hynny eu hychwanegu at y gofrestr. Ein targed o ran ychwanegu pobl at y

gofrestr ar gyfer yr ymgyrch hon oedd 43,500. Ychwanegwyd 46,779 o bobl at y gofrestr, sy'n golygu ein bod wedi cyflawni'r mesur perfformiad allweddol hwn.

5.43 I gael rhagor o wybodaeth am ein hymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth y cyhoedd, gweler ein hadroddiad gwerthuso.

Argymhelliad 11:
Byddai darparu ffordd i etholwyr wirio eu statws cofrestru ar ddechrau'r broses o wneud cais ar-lein i gofrestru yn golygu bod angen i bleidleiswyr wneud llai er mwyn sicrhau bod eu cofnod ar y gofrestr yn gyfredol, a byddai hefyd yn lleihau'r baich o brosesu ceisiadau dyblyg sydd ar Swyddogion Cofrestru Etholiadol.

Dylai Llywodraeth y DU ddatblygu gwasanaeth ar-lein er mwyn galluogi pobl i wirio p'un a ydynt eisoes wedi cofrestru'n gywir i bleidleisio cyn iddynt gwblhau cais newydd i gofrestru.

Byddai angen i unrhyw wasanaeth o'r fath reoli a diogelu gwybodaeth bersonol pleidleiswyr yn ofalus.

6 Edrych i'r dyfodol

Bil Cymru a rôl y Comisiwn

6.1 Fel y soniwyd eisoes, mae Bil Cymru yn rhoi cymhwysedd deddfwriaethol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer gweinyddu a rheoleiddio etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a llywodraeth leol.

6.2 Mae hyn yn golygu rhoi pwerau newydd i'r Cynulliad mewn perthynas â'r canlynol:

- Cynnal etholiadau i'r Cynulliad
- Amseru'r cyfnodau pleidleisio ar gyfer etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a llywodraeth leol
- Is-ddeddfwriaeth ar gyfer cyfuno etholiadau ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru ag etholiadau ar gyfer Senedd y DU a Senedd Ewrop dan amgylchiadau penodol
- Cofrestru etholwyr
- Y pŵer i wneud taliadau i unrhyw blaid wleidyddol er mwyn helpu aelodau'r Cynulliad i gyflawni eu dyletswyddau yn y Cynulliad
- Cyfyngiadau ar wariant ymgeiswyr mewn etholiadau a chreu troseddau
- Swyddogaethau penodol o ran y weithdrefn mewn perthynas â'r Gwasanaeth Digidol ar gyfer ceisiadau i ymuno â'r gofrestr etholwyr

6.3 Mae'r Bil yn darparu i gymhwysedd deddfwriaethol dros rai o swyddogaethau'r Comisiwn Etholiadol mewn perthynas ag etholiadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru gael eu datganoli i'r Cynulliad, ac felly byddai'r Comisiwn Etholiadol yn dod yn atebol i'r Cynulliad mewn perthynas â'r swyddogaethau hyn.

6.4 Mae gan y Comisiwn raglen waith lawn ar waith ar gyfer etholiadau yng Nghymru yn y dyfodol. Mae'n bwysig i'r Comisiwn fod yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol, ac i'r Cynulliad Cenedlaethol graffu ar y Comisiwn, o ran y gweithgareddau a'r gwariant perthnasol mewn perthynas ag etholiadau y mae gan y Cynulliad gyfrifoldeb deddfwriaethol amdanynt.

6.5 Edrychwn ymlaen at gydweithio â Chynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru i gyflawni hyn yn y ffordd fwyaf effeithiol.

Bwrdd Cynghori Cymru

6.6 Gan ystyried natur datganoli sy'n newid, yn enwedig y newidiadau arfaethedig sydd wedi'u cynnwys ym Mil Cymru a'u heffaith ar berthynas y Comisiwn â Chynulliad Cenedlaethol Cymru, rydym yn bwriadu sefydlu Grŵp Cynghori Cymru yn ystod hydref 2016.

6.7 Bydd y Grŵp Cynghori hwn yn cynnwys Comisiynydd Etholiadol Cymru, Aelod a enwebir o'r pleidiau hynny a gynrychiolir yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru a chynrychiolydd o Gomisiwn y Cynulliad.

6.8 Bydd ei nodau fel a ganlyn:

- Sicrhau bod aelodau etholedig yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru yn ymwybodol o waith y Comisiwn
- Rhoi cyfle i aelodau etholedig roi eu barn ar raglen waith y Comisiwn, a bod y farn honno wedyn yn cael ei rhannu â Bwrdd y Comisiwn gan Gomisiynydd Etholiadol Cymru
- Sefydlu cyswllt cynghori parhaol rhwng y Comisiwn ac aelodau o Gynulliad Cenedlaethol Cymru

6.9 Disgwylir y bydd y grŵp yn cwrdd unwaith neu ddwy y flwyddyn a byddwn yn ysgrifennu'n ffurfiol at arweinyddion y pleidiau a Chomisiwn y Cynulliad i roi rhagor o wybodaeth, gan gynnwys Cylch Gorchwyl drafft, dros yr wythnosau nesaf.

Atodiad A


CYMRU
Ardaloedd Heddlu, Awdurdodau Lleol & Etholaethau y Cynulliad
Ynys Môn
YNYS MÔN
Arfon
GOGLEDD CYMRU
CONWY
Aberconwy
Dyffryn Clwyd
Delyn
SIR Y FFLINT
Gorllewin Clwyd
SIR DDINBYCH
Wrecsam
WRECSAM
De Clwyd
GWYNEDD
Dwyfor Meirionnydd
Sir Drefaldwyn
POWYS
Ceredigion
CEREDIGION
CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU
Brycheiniog a Sir Faesyfed
Preseli Sir Benfro
SIR BENFRO
Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro
Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr
SIR GAERFYRDDIN
Llanelli
RHONDDA CYNON TAF
MERTHYR TUDFUL
BLAENAU GWENT
TORFAEN
Mynwy
SIR FYNWY
Blaenau Gwent
DWYRAIN DE CYMRU
Castell-nedd
CASTELL-NEDD PORT TALBOT
GORLLEWIN DE CYMRU
Aberafan
Gwyr
ABERTAWE
Cwm Cynon
Rhondda
Taf-fechan
Islwyn
CAERFFILI
Caerffili
Ogwr
PEN-Y-BONT AR OGWR
Pontypridd
CASNEWYDD
Dwyrain Casnewydd
Pen-y-bont ar Ogwr
CANOL DE CYMRU
Bro Morgannwg
BRO MORGANNWG
CAERDYDD
ARDALOEDD HEDDLU
GOGLEDD CYMRU
DYFED POWYS
DE CYMRU
GWENT
Ffin Etholaeth y Cynulliad
Etholaeth Ranbarthol/ Pwyllgor Rhanbarthol
Ffin Awdurdod Lleol
1 Alun a Glannau Dyfrdwy
2 Gorllewin Abertawe
3 Dwyrain Abertawe
4 Merthyr Tudful a Rhymni
5 Gorllewin Caerdydd
6 Gogledd Caerdydd
7 Canol Caerdydd
8 De Caerdydd a Phenarth
9 Gorllewin Casnewydd
© Hawlfraint y Goron 2014
Cartograffeg • Llywodraeth Cymru • MU21/14.15 (a)
Gorffennaf 2014
OGL

Atodiad B: Methodoleg Ymchwilio

Arolwg o farn y cyhoedd

Rhwng 6 a 28 Mai 20016, holodd BMG Research sampl o 701 o oedolion dros 18 oed ledled Cymru. Cynhaliwyd y cyfweliadau dros y ffôn: 80% llinell dir a 20% ffôn symudol. Mae'r data wedi'u pwysoli er mwyn cyfateb i broffil Cymru.

Lle nad yw'r canlyniadau'n gwneud cyfanswm o 100, mae hyn o ganlyniad i roi mwy nag un ateb, talgrynnu gan gyfrifiadur neu beidio â chynnwys atebion 'ddim yn gwybod' neu gwestiynau nas atebwyd.

Mae'r cymariaethau a wneir rhwng yr etholiadau hyn ac arolygon ôl-etholiad blaenorol yn ddangosol a dylid ymdrin â nhw yn ofalus.

Mae rhagor o wybodaeth i'w gweld ar ein gwefan.

Data etholiadol

Gwnaeth yr Athro Colin Rallings a'r Athro Michael Thrasher yng Nghanolfan Etholiadau Prifysgol Plymouth gasglu a choladu data gan Swyddogion Canlyniadau yng Nghymru. Roedd hyn yn cynnwys ffurflen K a ffurflen Data Ychwanegol, a oedd yn cynnwys data yn ymwneud â chofrestru etholiadol, y nifer a bleidleisiodd, pleidleisio absennol a phapurau pleidleisio a wrthodwyd.

Adborth gan Swyddogion Canlyniadau Lleol a Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol

Rhoddodd y Comisiwn ffurflen adborth i Swyddogion Canlyniadau er mwyn iddynt wneud sylwadau ar eu profiad o weinyddu'r etholiadau ar 5 Mai. Cynhaliwyd yr arolwg ar Survey Monkey rhwng 6 Mai a 10 Mehefin 2016. Cafwyd cyfanswm o 4 ymateb gan awdurdodau lleol yng Nghymru.

Arolwg o Ymgeiswyr

Yn yr wythnos ar ôl y diwrnod pleidleisio, anfonodd y Comisiwn arolwg drwy'r post i bob ymgeisydd a oedd wedi rhoi cyfeiriad ar y datganiad o unigolion a enwebwyd. Gwnaethom anfon cyfanswm o 220 o arolygon drwy'r post at ymgeiswyr yn etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru a chawsom 129 o ymatebion (cyfradd ymateb o 59%) y mae'r data ymgeiswyr yn seiliedig arnynt.

Dywedodd 81% o'r ymatebwyr eu bod yn asiantiaid, a dywedodd 81% eu bod yn ymgeiswyr, ond 19% a ddywedodd eu bod yn gweithredu yn y ddwy rôl. Roedd yr ymatebwyr yn perthyn i bob rhan o'r sbectrwm gwleidyddol (gyda 96% yn sefyll ar ran plaid wleidyddol a 4% yn ymgeiswyr annibynnol), ac roeddent yn amrywio o ran p'un a oeddent wedi sefyll etholiad neu ddal swydd aelod o'r blaen.

Mae'r bobl a wnaeth ddychwelyd arolygon o'r math hwn wedi dewis gwneud hynny, ac mae nodweddion ein sampl yn wahanol i nodweddion yr holl ymgeiswyr i raddau. Mae ein sampl yn cynnwys ystod eang o nodweddion; fodd bynnag, ni ddylid ystyried bod y canfyddiadau'n cynrychioli barn yr holl ymgeiswyr yn yr un ffordd ag y mae data ar farn y cyhoedd yn ceisio cynrychioli'r boblogaeth ehangach.